
# GWYBODAETH AM Y FARCHNAD LAFUR

Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu

**Rhagolygon 2017–2021**



CYMRU

**Am CITB**
CITB yw'r Bwrdd Hyfforddiant Diwydiannol (ITB) ar gyfer y diwydiant adeiladu ym Mhrydain Fawr (Cymru, Lloegr a'r Alban). Mae CITB yn defnyddio'i ymchwil a'i wybodaeth am y farchnad lafur i ddeall anghenion sgiliau'r sector ac yn gweithio â'r diwydiant a'r llywodraeth i sicrhau bod gan y diwydiant adeiladu'r sgiliau cywir, yn awr ac ar gyfer y dyfodol.

Mae CITB yn moderneiddio ei ddull cyllido i fuddsoddi mewn meysydd a fydd yn darparu'r enillion gorau ar gyfer y diwydiant, ac yn galluogi'r sector i ddenu a hyfforddi pobl dalentog er mwyn adeiladu Prydain well.

**Am Experian**
Tîm *Construction Futures* Experian yw'r tîm rhagweld adeiladu arweiniol yn y DU, yn arbenigo mewn dadansoddiad economaidd y diwydiant adeiladu a diwydiannau cysylltiedig yn y DU a'u rhanbarthau. Fel y cyfryw, mae gennym ddealltwriaeth fanwl o strwythur y diwydiant adeiladu a'r ffactorau sy'n gyrru newidiadau iddo. Mae'r tîm *Construction Futures* wedi cydweithio ar fodel cyflogaeth y Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu gyda CITB ers 2005, yn rheoli arolwg misol o weithgarwch contractwyr fel rhan o gyfres o arolygon busnes y Comisiwn Ewropeaidd sydd wedi'u cysoni, ac arolwg cyflwr masnachu chwarterol ar ran Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr.

Mae'r deunyddiau hyn, ynghyd â'r holl hawliau eiddo deallusol ynddynt, yn eiddo i Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB). Hawlfraint 2005 ("CITB") ac ni ddylid eu copïo, eu hatgynhyrchu na'u trosglwyddo i drydydd parti heb ganiatâd ysgrifenedig CITB ymlaen llaw. Llunnir y deunyddiau hyn gan ddefnyddio data a gwybodaeth a roddwyd i CITB a/neu EXPERIAN Limited ("Experian") gan drydydd partïon na all EXPERIAN na CITB eu rheoli na'u dilysu o ran cywirdeb. Yn yr un modd, nid yw EXPERIAN na CITB yn rhoi unrhyw sicrwydd ynghylch cywirdeb nac addasrwydd y deunyddiau hyn at unrhyw ddiben penodol. At hynny, nid yw'r deunyddiau hyn yn gyfystyr â chyngor ac ni ddylid eu defnyddio fel yr unig sail i benderfyniadau busnes ac, fel y cyfryw, ni fydd EXPERIAN na CITB yn atebol am unrhyw benderfyniadau a wneir ar sail yr un peth. Rydych yn cydnabod na all deunyddiau sy'n defnyddio data empiraidd a/neu ddata ystadegol a/neu dechnegau modelu a/neu ragamcanu data er mwyn darparu data dangosol a/neu ragfynegol roi sicrwydd o unrhyw ganlyniad penodol.

# CYNNWYS

CRYNODEB A CHANFYDDIADAU ALLWEDDOL ..... 4
Y RHAGOLWG AR GYFER Y DIWYDIANT ADEILADU YNG NGHYMRU ..... 6
RHAGOLYGON CYFLOGAETH AR GYFER Y DIWYDIANT ADEILADU YNG NGHYMRU ..... 14
CYMARIAETHAU LEDLED Y DU ..... 18

## TABLAU A SIARTIAU

TWF ALLBWN ADEILADU CYFARTALOG BLYNYDDOL 2017-2021 – CYMRU ..... 5
CYMHARIAETH RANBARTHOL 2017-2021 ..... 5
STRWYTHUR Y DIWYDIANT ADEILADU 2015 – Y DU YN ERBYN CYMRU ..... 7
ALLBWN ADEILADU 1999-2015 – CYMRU ..... 7
STRWYTHUR ECONOMAIDD – CYMRU (£ BILIWN, PRISIAU 2012) ..... 7
DANGOSYDDION ECONOMAIDD – CYMRU (£ BILIWN, PRISIAU CYFREDOL – ONI NODIR FEL ARALL) ..... 9
TWF MEWN ARCHEBION AR GYFER GWAITH ADEILADU NEWYDD 1999-2015 CYMRU YN ERBYN PRYDAIN FAWR ..... 9
ARCHEBION AR GYFER GWAITH ADEILADU NEWYDD – CYMRU (£ MILIYNAU, PRISIAU CYFREDOL) ..... 9
ALLBWN ADEILADU – CYMRU (£ MILIWN, PRISIAU 2013) ..... 11
TWF ALLBWN ADEILADU CYFARTALOG BLYNYDDOL 2017-2018 – CYMRU ..... 11
ALLBWN ADEILADU – CYMRU (£ MILIWN, PRISIAU 2013) ..... 13
TWF ALLBWN ADEILADU CYFARTALOG BLYNYDDOL 2017-2021 – CYMRU ..... 13
CYFANSWM CYFLOGAETH YN ÔL GALWEDIGAETH – CYMRU ..... 15
GOFYNIAD RECRIWTIO BLYNYDDOL YN ÔL GALWEDIGAETH – CYMRU ..... 17
TWF CYFARTALOG BLYNYDDOL MEWN ALLBWN YN ÔL RHANBARTH 2017-2021 ..... 19
GOFYNIAD RECRIWTIO BLYNYDDOL (ARR) YN ÔL RHANBARTH 2017-2021 ..... 19

ESBONIO CSN ..... 20
METHODOLEG CSN ..... 20
GEIRFA ..... 22
NODIADAU ..... 23
DIFFINIADAU: MATHAU AC ENGHREIFFTIAU O WAITH ADEILADU ..... 24
GRWPIAU GALWEDIGAETHOL ..... 26

# CRYNODEB – CYMRU

Rhagamcenir y bydd twf allbwn cyfartalog blynyddol o 6.2% yng Nghymru rhwng 2017 a 2021, sy'n llai na'r 7.1% a ragamcanwyd y llynedd ar gyfer 2016 i 2020, ond mae hynny'n dal i fod yn gynnydd cadarn iawn. Disgwylir i dwf yng Nghymru fod yn sylweddol uwch na thwf yn y DU yn gyffredinol (1.7%). Ar sail ehangu allbwn, disgwylir i gyflogaeth dyfu ar gyfradd gyfartalog flynyddol o 2.7%, sydd eto ymhell uwchlaw cyfradd y DU o 0.6%. Amcangyfrifir y bydd gofyniad recriwtio cyfartalog (ARR) blynyddol Cymru yn 3,890, sef 3.4% o gyflogaeth sylfaen 2017.

Bydd twf yn y sector seilwaith o

**16%**

y flwyddyn ar gyfartaledd

Rhagfynegir y bydd cyflogaeth yn tyfu

**2.7%**

y flwyddyn ar gyfartaledd

Mae gan Gymru ARR o

**3,890**

## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Amcangyfrifir bod allbwn adeiladu wedi tyfu am y bedwaredd flwyddyn olynol yn 2016, gan gyrraedd £4.8bn yn ôl prisiau 2013. Fodd bynnag, mewn termau real, mae'n dal i fod 15% yn is na'i lefel uchaf yn 2004, sef bron £5.7bn. Mae twf y llynedd yn debygol o fod yn weddol gymedrol, sef tua 2%, yn sgil ehangu cryf yn y sector tai preifat a'r sector masnachol, ac mae'r olaf yn dechrau adfer o sylfaen isel iawn.


Rhagamcenir y bydd twf allbwn cyfartalog blynyddol o 6.2% yng Nghymru dros y bum mlynedd hyd at 2021 sef y cryfaf o blith unrhyw ranbarth yn Lloegr a'r gwledydd datganoledig. Bydd yr ehangu a welir wedi'i ysgogi i raddau helaeth gan dwf cryf iawn yn y sector seilwaith, sef bron 16% y flwyddyn ar gyfartaledd, a honnwyd ar ddechrau'r gwaith o adeiladu gorsaf niwclear newydd yn Wylfa Newydd yn ystod cyfnod y rhagolwg. Bydd y sector hefyd yn elwa ar raglen gwella ffyrdd sylweddol, lle mai uwchraddio'r M4 o amgylch Casnewydd fydd y cynllun mwyaf, ac mae'r gwaith hwn i fod i ddechrau yn 2018.

Er bod disgwyl i'r cynnydd mewn prisiau tai yng Nghymru fod yn gymedrol iawn dros gyfnod y rhagolwg, ceir nifer o brosiectau ar y safle neu sydd yn yr arfaeth a ddylai arwain at dwf mewn allbwn yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat fel ei gilydd, megis y 'pentref trefol' ar safle melin bapur Treláí yng Nghaerdydd a datblygiad Taylor Wimpey yn Nhorfaen. Rhagwelir twf eithaf da yn y sector cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai a'r sector masnachol, gyda'r cyntaf yn seiliedig yn bennaf ar brosiectau iechyd a'r olaf yn parhau i adfer o'i lefel isel bresennol.

Rhagamcenir y bydd twf cyflogaeth o 2.7% y flwyddyn ar gyfartaledd rhwng 2017 a 2021, sydd ymhell uwchlaw cyfradd y DU o 0.6%, gyda'r gweithlu adeiladu yng Nghymru yn agosáu at 128,000 erbyn 2021. Mae hynny'n golygu mai Cymru, ynghyd â De-ddwyrain Lloegr, yw'r unig ranbarth/gwlad ddatganoledig lle y bydd cyflogaeth yn fwy na'i lefel uchaf yn 2008. Mae disgwyl i'r galw fod ar ei uchaf ar gyfer goruchwylwyr crefftau adeiladu a gweithredwyr peirianneg sifil nec, gyda chyfraddau twf cyfartalog blynyddol o fwy na 4%. Yn gyffredinol, bydd twf wedi'i ledaenu'n weddol gyfartal ar draws y prif gategorïau galwedigaethol – rheoli/goruchwylio, proffesiynol, a chrefftau.

Amcangyfrifir y bydd ARR Cymru yn 3,890 y flwyddyn ar gyfartaledd, y pumed gofyniad mwyaf ar lefel absoliwt a'r uchaf fel cymhareb o gyflogaeth sylfaen 2017 (3.4%). Mae hyn ymhell uwchlaw cymhareb y DU o 1.4%. Yn draddodiadol, mae Cymru yn dioddef all-lifau net uchel o'i gweithlu adeiladu i rannau eraill o'r DU, yn enwedig De-orllewin Lloegr a Gogledd-orllewin Lloegr, ac felly mae'n dueddol o gael ARR cymharol uchel.

## TWF ALLBWN ADEILADU CYFARTALOG BLYNYDDOL 2017-2021 – CYMRU




*Ffynhonnell: CSN, Experian.*
*Cyf: Esbonio CSN.*

## CYMHARIAETH RANBARTHOL 2017-2021

| | Newid % cyfartalog blynyddol mewn allbwn | Newid mewn cyfanswm cyflogaeth | Cyfanswm ARR |
|---|---|---|---|
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | -0.1% | -2,840 | 1,270 |
| Swydd Efrog a Humber | 0.5% | -1,300 | 1,860 |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 0.0% | -2,340 | 1,770 |
| Dwyrain Lloegr | 1.0% | 3,230 | 3,970 |
| Llundain Fwyaf | 2.4% | 27,110 | 3,870 |
| De-ddwyrain Lloegr | 2.2% | 25,550 | 3,940 |
| De-orllewin Lloegr | 3.1% | 8,240 | 4,180 |
| Cymru | 6.2% | 16,120 | 3,890 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 1.3% | 4,280 | 2,800 |
| Gogledd Iwerddon | 1.6% | 1,430 | 710 |
| Gogledd-orllewin Lloegr | 2.5% | 14,520 | 5,140 |
| Yr Alban | -0.4% | -8,420 | 2,340 |
| **Y DU** | **1.7%** | **85,580** | **35,740** |

*Ffynhonnell: CSN, Experian.*
*Cyf: Esbonio CSN.*

> Rhagamcenir y bydd twf allbwn cyfartalog blynyddol o 6.2% yng Nghymru dros y bum mlynedd hyd at 2021 sef y cryfaf o blith unrhyw ranbarth yn Lloegr a'r gwledydd datganoledig.

# Y RHAGOLWG AR GYFER Y DIWYDIANT ADEILADU YNG NGHYMRU

## ALLBWN ADEILADU YNG NGHYMRU – TROSOLWG

Cododd allbwn adeiladu yng Nghymru am y drydedd flwyddyn yn olynol yn 2015, hyd at amcangyfrif o £4.73bn, yn ôl prisiau 2013, sef cynnydd o 4%. Fodd bynnag, parhaodd allbwn bron 17% yn is na'i lefel uchaf yn 2004 mewn termau real. Roedd yr ehangu a welwyd yn 2015 wedi'i ysgogi bron yn gyfan gwbl gan y sector seilwaith, lle'r oedd allbwn wedi mwy na dyblu. Gostyngodd allbwn atgyweirio a chynnal a chadw i'r lefel a welwyd yn 2013 ar ôl bod yn un o'r prif ffactorau twf yn 2014.

## STRWYTHUR Y DIWYDIANT

Mae'r diagram, Strwythur y Diwydiant Adeiladu 2015 – y DU yn erbyn Cymru, yn dangos dadansoddiad sector o'r diwydiant adeiladu yng Nghymru, o gymharu â'r DU. I bob diben, mae'r canrannau ar gyfer pob sector yn dangos pa gyfran o gyfanswm yr allbwn y mae pob sector yn cyfrif amdani.

Mae'r twf cryf iawn yn y sector seilwaith wedi newid strwythur y diwydiant yng Nghymru yn 2015 yn sylweddol, yn ogystal â'i gydberthynas â chyfartaledd y DU. Er bod cyfran seilwaith o gyfanswm yr allbwn adeiladu yn debyg yng Nghymru a'r DU yn 2014, dyblodd ei gyfran yng Nghymru bron yn 2015 i 27% ac mae bellach yn cymharu â 15% yn y DU. Mae'r twf hwn mewn seilwaith wedi gwasgu cyfrannau pob sector arall yng Nghymru heblaw am y sector diwydiannol, lle y cododd ei gyfran o 2% yn 2014 i 3% yn 2015.

Os rhywbeth, mae strwythur y diwydiant adeiladu yng Nghymru wedi gwahaniaethu hyd yn oed yn fwy nag sy'n arferol oddi wrth gyfartaledd y DU yn 2015. Roedd tai newydd preifat yn cyfrif am 13% yn unig o gyfanswm yr allbwn adeiladu yng Nghymru o gymharu â 18% yn y DU, ac roedd y sector masnachol (10% o gymharu â 18%) a'r sector gwaith atgyweirio a chynnal a chadw nad yw'n ymwneud â thai (14% o gymharu â 17%) yn llai ar gyfartaledd hefyd. I'r gwrthwyneb, roedd y sector cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai yn fwy ar gyfartaledd, ac yn cymryd cyfran o 12% o'r allbwn yn 2015 o gymharu â 7% ar gyfer y DU gyfan.

## TROSOLWG ECONOMAIDD

Mae perfformiad disgwyliedig economi ranbarthol neu genedlaethol dros gyfnod y rhagolwg (2017-2021) yn rhoi syniad o'r sectorau adeiladu lle mae'r galw mwyaf yn debygol o fod.

## STRWYTHUR ECONOMAIDD

Y sector gwasanaethau proffesiynol a gwasanaethau preifat eraill (twf o 3.1% y flwyddyn ar gyfartaledd), y sector cyfanwerthu a manwerthu (2.9%), a'r sector llety, gwasanaethau bwyd ac adloniant (2.4%) oedd yn bennaf cyfrifol am y twf yn economi Cymru yn ystod y pum mlynedd hyd at 2015. Roedd y tri sector hyn yn cyfrif am 37% o werth ychwanegol gros (GVA) yng Nghymru yn 2015. Dim ond twf bach a welodd y sector gweithgynhyrchu, sef 1.1% y flwyddyn, gyda gwasanaethau cyhoeddus yn dangos ychydig yn fwy o ehangu, sef 0.7% dros yr un cyfnod. Mae hyn yn dangos bod rhagor o newid wedi bod o'r sector gweithgynhyrchu a gwasanaethau cyhoeddus i'r sector gwasanaethau preifat mewn blynyddoedd diweddar. Er hynny, roedd y sector gweithgynhyrchu a'r sector gwasanaethau cyhoeddus yn dal i gyfrif am gyfran sylweddol fwy o GVA yng Nghymru yn 2015 na'r DU – 16.1% o gymharu â 9.6% yn achos y cyntaf a 25.3% o gymharu â 18.2% yn achos yr olaf. Gwasanaethau cyhoeddus yw'r sector mwyaf yn y wlad ddatganoledig o hyd.

Mae'r ffaith bod Cymru yn dibynnu'n fwy ar y sector gweithgynhyrchu a'r sector gwasanaethau cyhoeddus yn ffactor allweddol sy'n cyfrif am y gwahaniaeth mewn perfformiad economaidd cyffredinol yn y pum mlynedd hyd at 2015, gyda'r DU yn gweld ehangu o 2% y flwyddyn ar gyfartaledd o gymharu â 1.6% yng Nghymru.




## STRWYTHUR Y DIWYDIANT ADEILADU 2015 – Y DU YN ERBYN CYMRU

| | Y DU | Cymru |
|---|---|---|
| Tai cyhoeddus | 4% | 3% |
| Seilwaith | 15% | 27% |
| Diwydiannol | 3% | 3% |
| Atgyweirio a chynnal a chadw tai | 18% | 18% |
| Tai preifat | 18% | 13% |
| Cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai | 7% | 12% |
| Masnachol | 18% | 10% |
| Atgyweirio a chynnal a chadw nad yw'n ymwneud â thai | 17% | 14% |

*Ffynhonnell: ONS, Experian.*

## ALLBWN ADEILADU 1999-2015 – CYMRU




*Ffynhonnell: ONS.*
*Cyf: Esbonio CSN.*

## STRWYTHUR ECONOMAIDD – CYMRU (£ BILIWN, PRISIAU 2012)

| | Gwirioneddol | Rhagolwg (Newid % blynyddol, termau real) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2015** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** |
| Gwasanaethau Cyhoeddus | 13.3 | 1.3 | 0.2 | 0.5 | 1.3 | 2.1 | 2.2 |
| Gwasanaethau Proffesiynol a Phreifat Eraill | 11.8 | 2.9 | 1.3 | 1.2 | 1.6 | 1.8 | 2.0 |
| Gweithgynhyrchu | 8.5 | 0.2 | -0.3 | 1.0 | 0.9 | 0.9 | 0.9 |
| Cyfanwerthu a Manwerthu | 5.4 | 4.6 | 1.2 | 1.2 | 1.7 | 1.9 | 2.1 |
| Llety, Gwasanaethau Bwyd ac Adloniant | 2.3 | 2.9 | 1.9 | 1.6 | 1.7 | 1.5 | 1.7 |
| **Cyfanswm y Gwerth Ychwanegol Gros (GVA)** | **52.7** | **2.0** | **0.6** | **0.9** | **1.4** | **1.7** | **1.8** |

*Noder: Pum prif sector, ac eithrio'r sector adeiladu.*
*Ffynhonnell: Experian.*
*Cyf: Esbonio CSN.*

## DANGOSYDDION ECONOMAIDD SY'N EDRYCH I'R DYFODOL

Cyrhaeddodd GVA yng Nghymru £52.7bn (prisiau 2012) yn 2015, sef 3.4% o gyfanswm y DU. Gyda'r wlad ddatganoledig yn cyfrif am 4.8% o boblogaeth y DU, mae GVA y pen yn parhau i fod llawer yn is na chyfartaledd y DU. Amcangyfrifir bod GVA wedi codi 2% yn 2016, yn unol â chyfradd y DU, ac wedi'i ysgogi gan berfformiad da yn y sector gwybodaeth a chyfathrebu (5.8%), y sector cyfanwerthu a manwerthu (4.6%), a'r sector gwasanaethau proffesiynol a gwasanaethau preifat eraill (2.9%).

Mae disgwyl i economi Cymru barhau i ehangu'n arafach na'r DU, gan tua hanner pwynt canran y flwyddyn ar gyfartaledd (1.3% o gymharu ag 1.8%) dros y cyfnod rhwng 2017 a 2021. Rhagamcenir y bydd twf yn arafach yn gyffredinol na'r hyn a ragwelwyd flwyddyn yn ôl oherwydd ansicrwydd byd-eang, nid yn unig oherwydd canlyniad refferendwm yr Undeb Ewropeaidd yn y DU, ond hefyd yn gysylltiedig â'r etholiadau diweddar yn UDA a'r ansefydlogrwydd sy'n parhau yn y Dwyrain Canol. Bydd Cymru hefyd yn dioddef o ddemograffeg wannach, ac mae disgwyl i boblogaeth y wlad ddatganoledig ehangu dim ond 0.3% y flwyddyn ar gyfartaledd, o gymharu â 0.7% ledled y DU gyfan.

Mae disgwyl i'r ffactorau y soniwyd amdanynt uchod effeithio ar wariant defnyddwyr ac nid yw'n debygol y gall buddsoddiadau busnes ledled y DU a Chymru osgoi hyn. Mae twf mewn incwm gwario gwirioneddol aelwydydd yn debygol o droi'n negyddol eleni oherwydd pwysau yn sgil chwyddiant uwch, a rhagamcenir y bydd twf mewn gwariant aelwydydd yn arafu i tua 1.3% y flwyddyn ar gyfartaledd rhwng 2017 a 2021, o gymharu â 2.1% yn y pum mlynedd hyd at 2015.

## ARCHEBION AR GYFER GWAITH ADEILADU NEWYDD – TROSOLWG

Ar ôl dwy flynedd wan o ran twf, gwelwyd cynnydd o fwy na 27% yn yr archebion ar gyfer gwaith adeiladu newydd i £2.68bn yn ôl prisiau cyfredol yn 2015, sef y lefel uchaf ers 2007. Roedd y cynnydd mwyaf o bell ffordd yn y sector seilwaith, lle y gwelwyd cynnydd yn yr archebion newydd o £272m yn 2014 i £1.3bn yn 2015. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o'r cynnydd hwn mewn archebion newydd eisoes wedi'i droi'n allbwn yn yr un flwyddyn. Roedd twf mewn archebion newydd ar gyfer gwaith adeiladu diwydiannol yn gryf hefyd, am yr ail flwyddyn yn olynol, er eu bod yn adfer o sylfaen isel iawn.

## ARCHEBION AR GYFER GWAITH ADEILADU NEWYDD – Y SEFYLLFA SYDD OHONI

Yn ystod tri chwarter cyntaf 2016, cyfanswm yr archebion newydd oedd £2.41bn, sef 19% yn uwch na'r cyfnod cyfatebol yn 2015. Nid yw'n syndod nad yw'r sector seilwaith wedi adeiladu ar y twf esbonyddol a welwyd yn 2015, ond mae ei lefel wedi aros yn sefydlog. Roedd y twf cryfaf yn y sector masnachol, lle y gwnaeth archebion newydd fwy na dyblu i £467m, a gwelwyd twf dau-ddigid yn y sector tai cyhoeddus a phreifat a'r sector cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai.




## DANGOSYDDION ECONOMAIDD – CYMRU (£ BILIWN, PRISIAU CYFREDOL – ONI NODIR FEL ARALL)

| | Gwirioneddol | Rhagolwg (Newid % blynyddol, termau real) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
| Incwm gwario gwirioneddol aelwydydd (prisiau 2012) | 48.2 | 2.3 | -0.4 | 1.3 | 1.4 | 1.8 | 2.0 |
| Gwariant aelwydydd (prisiau 2012) | 49.4 | 2.5 | 1.3 | 0.5 | 1.2 | 1.8 | 1.9 |
| Poblogaeth oedran gweithio (000au ac fel % o bob un) | 1,891.4 | 61.2% | 61.1% | 61.0% | 61.1% | 61.5% | 61.4% |
| Prisiau tai (£) | 138,667 | 2.6 | 0.7 | 0.8 | 1.8 | 2.3 | 2.6 |
| Diweithdra yn ôl Arolwg o'r Llafurlu (miliynau) | 0.1 | -18.5 | 15.6 | 1.2 | 0.1 | 0.4 | -0.2 |

*Ffynhonnell: ONS, DCLG, Experian.*

## TWF MEWN ARCHEBION AR GYFER GWAITH ADEILADU NEWYDD 1999-2015 CYMRU YN ERBYN PRYDAIN FAWR




*Ffynhonnell: ONS.*
*Cyf: Esbonio CSN.*

## ARCHEBION AR GYFER GWAITH ADEILADU NEWYDD – CYMRU (£ MILIYNAU, PRISIAU CYFREDOL)

| | Gwirioneddol | Newid % blynyddol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
| Tai cyhoeddus | 47 | -44.4 | -2.0 | -15.3 | -30.1 | -19.0 |
| Tai preifat | 497 | -40.3 | 42.5 | -4.4 | 4.8 | 8.0 |
| Seilwaith | 1,305 | -37.7 | 159.5 | -2.6 | -43.3 | 379.8 |
| Cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai | 314 | -21.7 | 31.7 | -11.0 | 88.5 | -62.5 |
| Diwydiannol | 180 | -1.4 | 12.3 | -11.0 | 58.9 | 55.2 |
| Masnachol | 337 | -32.0 | 28.7 | 21.6 | -35.9 | -6.4 |
| **Cyfanswm y gwaith newydd** | **2,680** | **-32.5** | **47.2** | **-0.6** | **1.0** | **27.4** |

*Ffynhonnell: ONS.*
*Cyf: Esbonio CSN.*

## ALLBWN ADEILADU – RHAGOLYGON BYRDYMOR (2017–2018)

Cyhoeddir ystadegau allbwn rhanbarthol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn ôl prisiau cyfredol ac felly maent yn cynnwys unrhyw effaith chwyddiannol. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, dim ond ar gyfer tri chwarter cyntaf 2016 yr oedd ystadegau allbwn adeiladu rhanbarthol SYG ar gael.

Cyrhaeddodd allbwn adeiladu yn ystod tri chwarter cyntaf 2016 £4.1bn yn ôl prisiau cyfredol, sef cynnydd o 9% o gymharu â'r cyfnod cyfatebol yn 2015. Cafwyd twf cryf yn y sector tai preifat a'r sector adeiladu masnachol, sef tua 40% yn y ddau, ond gwelwyd gostyngiad yn y sector tai cyhoeddus, y sector cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai a'r sector diwydiannol. Ar sail flynyddol, roedd allbwn 7% yn uwch yn ystod trydydd chwarter y flwyddyn ddiwethaf nag ar ddiwedd 2015 mewn termau nominal ac mewn termau real – hynny yw, tynnu allan effaith chwyddiant – amcangyfrifir bod y twf tua 2% ar gyfer 2016 yn ei chyfanrwydd.

Disgwylir i dwf tymor byr yng Nghymru fod yn 0.4% y flwyddyn ar gyfartaledd yn 2017 a 2018, sy'n gymharol fach ac yn bennaf oherwydd rhagolwg gwael eleni o ran twf yn y sector seilwaith. Fodd bynnag, mewn termau absoliwt, disgwylir i allbwn seilwaith barhau ar y lefel uchel erioed, sef yn agos at £1bn (prisiau 2013).

Ym maes trafnidiaeth, roedd disgwyl i £136m o waith gael ei gwblhau erbyn diwedd 2016, ond mae disgwyl i waith gwerth bron £350m ddechrau, gan gynnwys gwaith ar Ffordd Osgoi'r A487 Caernarfon-Bontnewydd, Ffordd Osgoi'r A483/A489 y Drenewydd, gwelliannau i Gyffordd 28 yr M4, cynllun gwella'r Lôn Pum Milltir a Ffordd Gyswllt Dwyrain y Bae yng Nghaerdydd, a Thwnelau Bryn-glas yr M4.

Disgwylir i ddarparwyr tai cymdeithasol wneud yn well yn y gwledydd datganoledig o gymharu â'r rheiny yn Lloegr mewn awyrgylch gwleidyddol sy'n fwy ffafriol. Disgwylir twf cyfartalog blynyddol o fwy na 3% mewn allbwn tai cyhoeddus dros y ddwy flynedd nesaf. Ar hyn o bryd, mae Cymdeithas Tai Cadwyn yn adeiladu 33 o unedau ledled Caerdydd, ac mae disgwyl iddynt gael eu cwblhau erbyn mis Ebrill 2017, gyda 6 arall wedi'u cynllunio. Cytunwyd ar gynlluniau i adeiladu 62 o gartrefi fforddiadwy newydd yng nghanol tref y Fflint o dan y Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol (RhTAS). Disgwylir i'r cartrefi newydd gael eu cwblhau ym mis Ebrill 2018. Yn gyffredinol, nod rhaglen RhTAS yw adeiladu 500 o gartrefi newydd ledled Sir y Fflint erbyn 2021, 300 ar gyfer rhent fforddiadwy a 200 ar gyfer rhent cymdeithasol.

Rhagamcenir y bydd allbwn tai preifat yn tyfu ar yr un gyfradd â'r sector cyhoeddus dros y ddwy flynedd nesaf. Mae data diweddar ar brisiau tai yn cyflwyno darlun cymedrol o'r galw, gyda thwf fesul mis o 0.7% ym mis Hydref 2016 a chyfradd twf flynyddol o 4.4% yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n wannach na Lloegr, ond yn gryfach na'r Alban a Gogledd Iwerddon.

Dechreuodd gwaith fis Rhagfyr diwethaf ar brosiect gwerth £100m i greu 'pentref trefol' ar safle melin bapur Trelái yng Nghaerdydd. Bydd y datblygiad gan Tirion Homes yn adeiladu hyd at 800 o unedau fforddiadwy a marchnad agored. Un o'r datblygwyr mwyaf gweithredol yng Nghymru ar hyn o bryd yw Conygar Investment Company plc, sydd wrthi'n cyflawni tri phrosiect marina yn Abergwaun, Caergybi a Doc Penfro, a bydd elfennau preswyl mawr yn rhan o bob un ohonynt gan wneud cyfanswm o 937 o fflatiau.

Mae'r sector cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai wedi perfformio'n wael dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ond mae disgwyl iddo fod yn un o'r sectorau sy'n bennaf cyfrifol am dwf yn 2017 a 2018, gan ehangu ar gyfradd gyfartalog o 6.5%. Mae nifer gynyddol o brosiectau wedi cwblhau'r broses gymeradwyo o dan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gwerth £1.4bn, y mae Llywodraeth Cymru yn ariannu 50% ohoni ac awdurdodau lleol yn ariannu'r hanner arall.

Yn yr is-sector iechyd, cyflwynwyd cynlluniau ar gyfer Canolfan Ganser newydd arfaethedig Felindre gwerth £210m yng Nghaerdydd. Y prosiect fydd y cyntaf i gael ei ariannu drwy'r dull Dosbarthu Nid Er Elw yng Nghymru ac, os bydd popeth yn iawn, disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau yn 2018.

Y tu allan i'r sectorau iechyd ac addysg, mae Muse Developments Ltd wedi dechrau gwaith i ddymchwel swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Conwy ym Mae Colwyn cyn dechrau gwaith ar gyfadeilad newydd gwerth £35m yn y gwanwyn. Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau erbyn hydref 2018.

Nid yw'r rhagolygon byrdymor ar gyfer y sector adeiladu diwydiannol yn addawol, gan fod disgwyl i allbwn gwympo yn agos at 3% y flwyddyn ar gyfartaledd dros y ddwy flynedd nesaf. Er y gall gweithgynhyrchwyr elwa rhywfaint ar gynnydd mewn allforion o ganlyniad i ostyngiad yng ngwerth y sterling, mae effeithiau hyn yn fach o gymharu â'r gostyngiad mewn galw domestig eleni a'r flwyddyn nesaf.

Rhagwelir twf cymedrol o tua 2.4% y flwyddyn ar gyfartaledd yn y sector adeiladu masnachol yn 2017 a 2018. Mae'r sector wedi dechrau adfer o lefelau allbwn sydd wedi bod yn isel iawn yn hanesyddol, ac mae disgwyl i hyn barhau er gwaethaf yr effaith y gall ansicrwydd byd-eang ei chael ar fuddsoddi.

Mae gwaith galluogi bellach wedi dechrau ar brosiect canol tref Tonysguboriau gwerth £200m, datblygiad defnydd cymysg sy'n cynnwys swyddfeydd, cyfleusterau manwerthu a hamdden i ategu'r twf diweddar o adeiladau preswyl newydd yn yr ardal. Disgwylir i'r prif waith ar y cynllun ddechrau tua diwedd y flwyddyn hon. Mae gwaith wedi dechrau ar bencadlys newydd BBC Cymru gwerth £120m yn Sgwâr Canolog, Caerdydd, ac mae disgwyl iddo fod yn weithredol yn 2018. Bydd y prosiect yn angori cam 2 allan o 5 o waith ailddatblygu Sgwâr Canolog. Disgwylir i'r gwaith o adeiladu Canolfan Gynadleddfa Ryngwladol newydd Cymru yng Ngwesty'r Celtic Manor ddechrau'n fuan. Disgwylir i'r cyfleuster gwerth £100m agor ar ddechrau 2019.


Cododd y ganran o dai cymdeithasol sy'n cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) i 79% ddiwedd mis Mawrth 2016, sef cynnydd o 7% o gymharu â diwedd mis Mawrth 2015. Roedd hyn yn gynnydd bach mewn cydymffurfiaeth o gymharu â'r cynnydd o 5% a welwyd yn y flwyddyn hyd at ddiwedd mis Mawrth 2015. O ystyried bod gan ddarparwyr tai cymdeithasol bedair blynedd i sicrhau bod gweddill eu stoc yn cyrraedd safonau SATC, mae'n debygol y bydd gwaith yn arafu hyd at 2020.

## ALLBWN ADEILADU – CYMRU (£ MILIWN, PRISIAU 2013)

| | Gwirioneddol | Newid % blynyddol a ragwelir | | | Cyfartaledd blynyddol |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2017-2018 |
| Tai cyhoeddus | 120 | -2% | 2% | 4% | 3.2% |
| Tai preifat | 612 | 26% | 7% | 0% | 3.2% |
| Seilwaith | 1,281 | -4% | -22% | 12% | -6.2% |
| Cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai | 592 | -18% | 2% | 12% | 6.5% |
| Diwydiannol | 146 | -7% | 2% | -7% | -2.8% |
| Masnachol | 465 | 14% | 2% | 2% | 2.4% |
| **Gwaith newydd** | **3,217** | **2%** | **-6%** | **6%** | **-0.1%** |
| Atgyweirio a chynnal a chadw tai | 867 | 2% | -1% | 2% | -0.7% |
| Atgyweirio a chynnal a chadw nad yw'n ymwneud â thai | 645 | 2% | 1% | 4% | 2.5% |
| **Cyfanswm atgyweirio a chynnal a chadw** | **1,511** | **2%** | **0%** | **3%** | **1.5%** |
| **Cyfanswm y gwaith** | **4,728** | **2%** | **-4%** | **5%** | **0.4%** |

*Ffynhonnell: Experian.*
*Cyf: Esbonio CSN.*

## TWF ALLBWN ADEILADU CYFARTALOG BLYNYDDOL 2017-2018 – CYMRU




*Ffynhonnell: Experian.*
*Cyf: Esbonio CSN.*

> Disgwylir i dwf cyflogaeth cyfartalog blynyddol yng Nghymru fod ar gyfradd gref o 2.7% dros y pum mlynedd hyd at 2021, sy'n sylweddol uwch na'r gyfradd a ragamcenir ar gyfer y DU, sef 0.6%.

## ALLBWN ADEILADU – RHAGOLYGON HIRDYMOR (2017-2021)

Ceir gwahaniaeth sylweddol rhwng y rhagolwg byrdymor o dwf blynyddol cyfartalog o 0.4% a'r rhagolwg hirdymor o 6.2%, ac mae hyn yn bennaf oherwydd y disgwylir i'r gwaith ddechrau ar adeiladu gorsaf niwclear newydd. Mae gwaith galluogi yn Wylfa Newydd yn debygol o ddechrau yn 2018, gyda'r concrit niwclear cyntaf yn cael ei arllwys yn 2019 neu 2020, er bod yr amserlen hon yn ddangosol ac yn debygol o newid. Fodd bynnag, hyd yn oed heb Wylfa Newydd, mae'r rhagolygon ar gyfer y sector seilwaith yn edrych yn dda, gyda thua £2.2bn o brosiectau ffermydd gwynt ar y tir a nifer sylweddol o gynlluniau ffyrdd yn yr arfaeth ar hyn o bryd. Y mwyaf o'r cynlluniau hyn yw coridor yr M4 o amgylch Casnewydd sydd werth £1bn.

Dangosodd cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau ffyrdd a rheilffyrdd ostyngiad sylweddol mewn buddsoddiad yn 2016/17, ond mae disgwyl iddo godi 50% i bron £186m yn 2017/18, cyn gostwng yn sydyn i £112m yn 2018/19. Ym maes trafnidiaeth, yn ogystal â'r gwaith i uwchraddio'r M4, disgwylir i waith ddechrau ar adrannau 5 a 6 o brosiect Gwaith Deuoli'r A465 Blaenau'r Cymoedd yn 2018, er nad oes cyllideb wedi'i phennu eto.

Mae Dŵr Cymru yn bwriadu buddsoddi ychydig o dan £1.5bn dros gyfnod Rhaglen Rheoli Asedau 6 (AMP6), 2015-2020, gyda gwariant yn cyrraedd ei lefel uchaf yn 2015/16 a 2016/17 ac yna'n cwympo'n gymedrol ar ôl hynny.

Disgwylir i'r sectorau tai cyhoeddus a phreifat weld twf dros y pum mlynedd hyd at 2021, gyda'r cyntaf yn gwneud yn well na'r olaf. Yn ogystal â'r cynlluniau y soniwyd amdanynt yn y sector blaenorol, mae gan Conygar gynlluniau ar gyfer 900 o unedau preswyl yn Hwlffordd, ac mae cynllun Cyngor Caerdydd ar gyfer 1,000 o gartrefi newydd yn parhau, ynghyd â datblygiad Taylor Wimpey yn Nhorfaen. Dylai Cam 2 o'r datblygiad defnydd cymysg yn Cardiff Pointe fod ar y safle erbyn hyn, sy'n cynnwys 120 o unedau preswyl pellach i'w hychwanegu at y rheiny sydd eisoes wedi'u cwblhau. Bydd cyfanswm o tua 800 o unedau preswyl yn cael eu hadeiladu ar y safle erbyn dechrau'r 2020au.

Mae cyllideb ddrafft ddiweddaraf Llywodraeth Cymru yn dangos gwariant cyfalaf ar addysg ac iechyd yn gostwng yn ystod 2017/2018 o gymharu â 2016/2017, ond yn cynyddu wedi hynny, tra bod cyllideb gyfalaf llywodraeth leol yn cynyddu seithwaith yn ystod 2017/2018 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac yna yn cael ei chynnal ar ei lefel newydd. Ar y cyfan, bwriedir i wariant cyfalaf ar iechyd, addysg a llywodraeth leol godi o tua £455m yn ystod 2016/17 i £542m yn 2020/21, sef cynnydd o 19%. Dylai hyn helpu i ategu twf allbwn cyfartalog blynyddol o tua 2.6% yn y sector cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod buddsoddi yn ystâd a chyfarpar y GIG yn faes allweddol dros y pedair blynedd nesaf, felly mae nifer sylweddol o brosiectau yn yr arfaeth i ailddatblygu ac ailwampio ysbytai. Cyflwynwyd yr achos busnes terfynol at gyfer Canolfan Gofal Critigol gwerth £240m yn Nhorfaen i Lywodraeth Cymru yn y gwanwyn, ac mae un yn cael ei lunio ar hyn o bryd ar gyfer gwneud gwaith ailwampio gwerth £119m ar ddau lawr yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr Tudful.

Nid yw'r rhagolygon ar gyfer y sector adeiladu diwydiannol yn addawol dros y tymor canolig, gydag allbwn yn gostwng dros gyfnod cyfan y rhagolwg. Rhagamcenir y bydd twf mewn allbwn gweithgynhyrchu oddeutu 0.7% y flwyddyn ar gyfartaledd tan 2021. Er y bydd y sector trafnidiaeth a storio yn debygol o wneud yn well gyda thwf o tua 1.4% y flwyddyn ar gyfartaledd, nid yw'r naill gyfradd na'r llall yn ddigon cryf i ysgogi cynnydd cyffredinol yn y galw am safleoedd diwydiannol newydd, er bod gofyniad drwy'r amser am fannau pwrpasol.

Rhoddwyd caniatâd cynllunio yn gynharach eleni i adeiladu 65,700 troedfedd sgwâr ychwanegol o storfeydd ac unedau diwydiannol ar ddatblygiad Celtic Business Park 100-erw St. Modwen yng Nghasnewydd. Gyda'i gilydd, bwriedir i'r safle gynnig tua 1.5 miliwn troedfedd sgwâr o ofod cyflogaeth dros yr 20 mlynedd nesaf.

Rhagamcenir y bydd twf yn y sector adeiladu masnachol yn 2.5% y flwyddyn ar gyfartaledd dros gyfnod y rhagolwg, sy'n well o lawer na pherfformiad y DU (1.2%). Fel y soniwyd amdano eisoes, rhan o'r rheswm dros hyn yw bod y sector yn adfer o sylfaen isel iawn, ond mae hefyd yn wir bod penderfyniadau buddsoddi byd-eang yn llai tebygol o effeithio ar y wlad ddatganoledig na marchnad Llundain, er enghraifft.

Er hynny, mae disgwyl i dwf yn y sectorau sy'n dueddol o ysgogi galw am safleoedd masnachol fod yn gymedrol dros y pum mlynedd nesaf, gan amrywio o 1.9% y flwyddyn ar gyfartaledd am safleoedd gwybodaeth a chyfathrebu i 0.7% am safleoedd cyllid ac yswiriant. Mae disgwyl i'r mwyaf o'r sectorau gwasanaeth, sef gwasanaethau proffesiynol a gwasanaethau preifat eraill, ehangu tua 1.6% y flwyddyn ar gyfartaledd hyd at 2021.

Y prosiect mawr nesaf i ddechrau ym Mhentref Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd yw'r Cromen Eira arfaethedig gwerth £150m, a'r gobaith yw y bydd yn agor ei drysau ar ddechrau 2020.

Er bod disgwyl i gyllideb gyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau tai o ansawdd ostwng o tua £153m yn 2016/17 i £108m yn 2017/18 a pharhau ar y lefel is wedi hynny, dim ond 16% o'r stoc tai yng Nghymru sy'n rhai cyhoeddus. Mae 84% o'r stoc yn eiddo preifat, ac felly'r sector atgyweirio a chynnal a chadw tai preifat sy'n dueddol o ysgogi twf yn y sector atgyweirio a chynnal a chadw tai yn gyffredinol, a rhagamcenir y bydd twf o 1.5% y flwyddyn ar gyfartaledd hyd at 2021.

## Y TU HWNT I 2021

Y ffaith amdani yw y bydd y gwaith yn Wylfa Newydd, pan fydd wedi dechrau, yn parhau ymhell y tu hwnt i gyfnod y rhagolwg presennol ac i ganol y degawd nesaf. Bydd adeiladu cyfleuster mor fawr mewn ardal gymharol ddiarffordd a phrin ei phoblogaeth yn golygu gwaith sylweddol i uwchraddio'r seilwaith lleol.

Mae prosiect Morlyn Llanw Bae Abertawe wedi'i eithrio o'r rhagolygon hyn oherwydd i'r cynlluniau gael eu cadarnhau cyn i argymhellion adolygiad Hendry gael eu cyhoeddi. Os bydd prosiect Morlyn Llanw Bae Abertawe yn llwyddiannus, gallai ysgogi cynlluniau eraill o natur debyg.


Ym maes trafnidiaeth, mae buddsoddi yn y gwaith o drydaneiddio Rheilffordd Great Western a Rhwydwaith Cledrau'r Cymoedd yn debygol o barhau i Gyfnod Rheoli 6 (CP6) Network Rail, a fydd yn dechrau yn 2019 ac yn para tan 2024.

## ALLBWN ADEILADU – CYMRU (£ MILIWN, PRISIAU 2013)

| | Amcangyfrif | Newid % blynyddol a ragwelir | | | | | Cyfartaledd blynyddol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2017-2021** |
| Tai cyhoeddus | 118 | 2% | 4% | 3% | 9% | 9% | 5.5% |
| Tai preifat | 772 | 7% | 0% | 1% | 3% | 1% | 2.3% |
| Seilwaith | 1,229 | -22% | 12% | 79% | 19% | 11% | 15.8% |
| Cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai | 484 | 2% | 12% | 1% | -5% | 4% | 2.6% |
| Diwydiannol | 136 | 2% | -7% | -2% | -3% | -3% | -2.8% |
| Masnachol | 531 | 2% | 2% | 2% | 3% | 2% | 2.5% |
| **Gwaith newydd** | **3,269** | **-6%** | **6%** | **27%** | **10%** | **7%** | **8.2%** |
| Atgyweirio a chynnal a chadw tai | 888 | -1% | 2% | 3% | 3% | 0% | 1.5% |
| Atgyweirio a chynnal a chadw nad yw'n ymwneud â thai | 658 | 1% | 4% | 1% | 1% | 0% | 1.4% |
| **Atgyweirio a chynnal a chadw** | **1,546** | **0%** | **3%** | **2%** | **2%** | **0%** | **1.5%** |
| **Cyfanswm y gwaith** | **4,814** | **-4%** | **5%** | **19%** | **7%** | **5%** | **6.2%** |

*Ffynhonnell: CSN, Experian.*
*Cyf: Esbonio CSN.*

## TWF ALLBWN ADEILADU CYFARTALOG BLYNYDDOL 2017-2021 – CYMRU




*Ffynhonnell: CSN, Experian.*
*Cyf: Esbonio CSN.*

# RHAGOLYGON CYFLOGAETH AR GYFER Y DIWYDIANT ADEILADU YNG NGHYMRU

## RHAGOLYGON AR GYFER CYFANSWM CYFLOGAETH YN Y DIWYDIANT ADEILADU YN ÔL GALWEDIGAETH

Mae'r tabl yn nodi cyflogaeth wirioneddol ar gyfer y diwydiant adeiladu (SICs 41-43, 71.1 a 74.9) yng Nghymru yn 2015, cyfanswm amcangyfrifedig cyflogaeth ar draws 28 o gategorïau galwedigaethol yn 2016 a rhagolygon ar gyfer y diwydiant rhwng 2017 a 2021. Ceir dadansoddiad llawn o grwpiau galwedigaethol yn Adran 5 o Esbonio CSN.

Disgwylir i dwf cyflogaeth cyfartalog blynyddol yng Nghymru fod ar gyfradd gref o 2.7% dros y pum mlynedd hyd at 2021, sy'n sylweddol uwch na'r gyfradd a ragamcenir ar gyfer y DU, sef 0.6%. Mae adeiladu gorsaf niwclear newydd yn cael llawer llai o effaith ar niferoedd cyflogaeth nag allbwn gan fod gan brosiectau ofyniad llafur cymharol isel fesul allbwn a gynhyrchwyd. Gan gymryd y bydd gwaith ar y cynllun yn dechrau yn 2018/2019, mae disgwyl i'r gyflogaeth adeiladu yn Wylfa Newydd gyrraedd ei lefel uchaf yn 2022, sef tua 4,700, a byddai hynny tua 4% o'r gweithlu adeiladu yng Nghymru. Mae disgwyl i dwf cyflogaeth gyflymu tuag at ddiwedd cyfnod y rhagolwg, wrth i waith ar Wylfa Newydd brysuro.

Mae disgwyl i gyflogaeth adeiladu yng Nghymru gyrraedd tua 127,800 erbyn 2021, sy'n uwch na'r amcangyfrif o 111,700 yn 2016, sef cynnydd o fwy na 16,000. Ar sail y prognosis hwn, bydd Cymru'n un o ddim ond dau ranbarth/gwlad ddatganoledig – De-ddwyrain Lloegr yw'r llall – lle y bydd cyflogaeth yn uwch na'i lefel uchaf yn 2008. Yn 2021, mae disgwyl i gyflogaeth yn y DU gyfan fod 6% yn is na'i lefel uchaf yn 2008 o hyd.

Yn wahanol i lawer o'r rhanbarthau a'r gwledydd datganoledig eraill, mae twf cyflogaeth yn debygol o fod yn eithaf cytbwys yn y prif grwpiau galwedigaeth – swyddi rheoli/goruchwylio, crefftau, a gweithwyr proffesiynol. Mewn mannau eraill, mae twf yn dueddol o fod yn gryfach mewn galwedigaethau rheoli/goruchwylio a phroffesiynol, ac yn wannach yn y crefftau. Nid yw'n syndod, o ystyried y gyfradd twf ragamcanol ar gyfer y sector seilwaith, mae'r galw ar gyfer peirianwyr sifil (bron 4% y flwyddyn ar gyfartaledd) a gweithwyr peirianneg sifil nec. (mwy na 4%) yn debygol o fyd yn gryf, er y dylid cofio bod angen y galwedigaethau hyn mewn sawl sector adeiladu arall.



## CYFANSWM CYFLOGAETH YN ÔL GALWEDIGAETH – CYMRU

| | Gwirioneddol | Amcangyfrif | Rhagolwg | |
|---|---|---|---|---|
| | **2015** | **2016** | **2017** | **2021** |
| Uwch-reolwyr, rheolwyr gweithredol a rheolwyr prosesau busnes | 4,180 | 3,860 | 3,640 | 3,730 |
| Rheolwyr prosiectau adeiladu | 1,380 | 1,430 | 1,430 | 1,610 |
| Rheolwyr prosesau adeiladu eraill | 8,460 | 8,840 | 8,790 | 9,990 |
| Staff proffesiynol, technegol, TG a swyddfa eraill nad ydynt yn ymwneud ag adeiladu | 9,610 | 9,800 | 9,500 | 10,490 |
| Goruchwylwyr crefftau adeiladu | 2,560 | 2,500 | 2,530 | 3,070 |
| Crefftau pren a dodrefnu mewnol | 14,560 | 14,090 | 14,780 | 16,180 |
| Bricwyr | 6,350 | 6,560 | 6,910 | 7,890 |
| Arbenigwyr amlenni adeiladau | 3,590 | 3,700 | 3,770 | 4,250 |
| Peintwyr ac addurnwyr | 5,540 | 5,520 | 5,670 | 6,560 |
| Plastrwyr | 4,640 | 4,600 | 4,800 | 5,300 |
| Towyr | 1,320 | 1,250 | 1,320 | 1,470 |
| Llorwyr | 120 | 120 | 130 | 140 |
| Gwydrwyr | 640 | 640 | 650 | 710 |
| Gweithwyr adeiladu arbenigol nec* | 3,500 | 3,440 | 3,610 | 4,110 |
| Sgaffaldwyr | 890 | 840 | 840 | 880 |
| Gweithwyr safle | 1,990 | 2,030 | 1,970 | 2,180 |
| Peirianwyr/ffitwyr safle | 1,490 | 1,490 | 1,510 | 1,800 |
| Codwyr dur/saernïo strwythurol | 1,380 | 1,350 | 1,390 | 1,420 |
| Llafurwyr nec* | 5,950 | 6,100 | 6,010 | 6,680 |
| Crefftau a gosod trydanol | 6,880 | 6,740 | 6,950 | 7,750 |
| Plymio a chrefftau gwresogi, awyru ac aerdymheru | 9,820 | 9,930 | 10,350 | 11,990 |
| Logisteg | 810 | 900 | 860 | 1,000 |
| Gweithwyr peirianneg sifil nec* | 1,210 | 1,310 | 1,340 | 1,620 |
| Gweithwyr nad ydynt yn ymwneud ag adeiladu | 1,310 | 1,300 | 1,260 | 1,270 |
| Peirianwyr sifil | 2,040 | 2,120 | 2,130 | 2,550 |
| Staff adeiladu proffesiynol a thechnegol eraill | 5,490 | 5,790 | 5,830 | 6,810 |
| Penseiri | 1,240 | 1,270 | 1,290 | 1,480 |
| Arolygwyr | 3,790 | 4,170 | 4,270 | 4,910 |
| **Cyfanswm (SIC 41-43)** | **98,180** | **98,340** | **100,010** | **112,090** |
| **Cyfanswm (SIC 41-43, 71.1, 74.9)** | **110,740** | **111,690** | **113,530** | **127,840** |

*Ffynhonnell: ONS, CSN, Experian.*
*Cyf: Esbonio CSN. *Heb eu dosbarthu mewn man arall.*

## GOFYNION RECRIWTIO BLYNYDDOL (ARR) YN ÔL GALWEDIGAETH

Gofyniad gros yw'r ARR sy'n ystyried llifau'r gweithlu i mewn ac allan o'r diwydiant adeiladu oherwydd ffactorau fel symudiadau rhwng diwydiannau, mudo, salwch ac ymddeoliad. Fodd bynnag, nid yw'r llifau hyn yn cynnwys ymuno â'r diwydiant yn dilyn hyfforddiant, oherwydd anghysondeb a chwmpas data cyflenwi. Felly, mae'r ARR yn rhoi syniad o nifer y cyflogeion newydd y byddai angen eu recriwtio i'r diwydiant adeiladu bob blwyddyn er mwyn gwireddu'r allbwn a ragwelir.

Rhagamcenir y bydd ARR Cymru yn 3,890 rhwng 2017 a 2021, sy'n cynrychioli 3.4% o gyflogaeth sylfaen 2017, ac mae hynny'n gymhareb sylweddol uwch nag un y DU, sef 1.4%. Nid y galw a grëwyd gan Wylfa Newydd yw'r prif reswm dros y gofyniad uchel hwn, er ei fod yn cael rhywfaint o effaith arno. Yn hytrach, mae Cymru yn draddodiadol yn gweld allbynnau net uchel o'i gweithlu adeiladu i ranbarthau/gwledydd datganoledig eraill y DU, yn benodol Gogledd-orllewin a De-orllewin Lloegr. Dylid cofio mai'r ARR yw'r niferoedd sydd eu hangen uwchlaw'r llifau net a ragwelir ar sail esiamplau hanesyddol.

Ceir nifer sylweddol o gategorïau galwedigaethol (15) y nodwyd bod ganddynt ofynion ARR sy'n uwch na 2.5% o gyflogaeth sylfaen 2017. Ar sail absoliwt, mae'r gofynion mwyaf ar gyfer crefftau pren (770), bricwyr (390), a gweithwyr adeiladu proffesiynol eraill (360), ond mae lefelau absoliwt yn dueddol o fod yn ddibynnol ar faint y categori galwedigaeth. Fodd bynnag, yn achos Cymru ar lefel gymharol – hynny yw fel cymhareb o gyflogaeth 2017 – roedd y gofynion mwyaf yn debyg, a'r tri uchaf yw gweithwyr proffesiynol eraill (6.2%), bricwyr (5.6%) a llafurwyr nec. (5.3%).

Noder mai gofynion cyflogaeth yw pob ARR a gyflwynir yn yr adran hon ac nid o reidrwydd gofynion hyfforddiant. Y rheswm dros hyn yw y bydd rhai newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant adeiladu, fel ymfudwyr medrus neu'r rheiny o ddiwydiannau eraill lle mae sgiliau tebyg yn cael eu defnyddio eisoes, yn gallu gweithio yn y diwydiant heb fod angen ailhyfforddiant sylweddol arnynt.

Mae gweithredwyr nad ydynt yn ymwneud ag adeiladu yn grŵp galwedigaethol amrywiol sy'n cynnwys yr holl weithgareddau o dan ambarél SICs 41-43, 71.1 a 74.9 na ellir eu dosbarthu mewn mannau eraill, fel glanhawyr, galwedigaethau diogelwch elfennol nec ac arolygwyr ac aseswyr rheolaidd. Gall y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y galwedigaethau hyn gael eu trosglwyddo'n hawdd i ddiwydiannau eraill ac mae rhagweld symudiad o'r fath yn beryglus o gofio'r ffaith bod prinder data ategol cadarn. Felly, ni chaiff yr ARR ar gyfer gweithredwyr nad ydynt yn ymwneud ag adeiladu ei gyhoeddi.



## GOFYNIAD RECRIWTIO BLYNYDDOL YN ÔL GALWEDIGAETH – CYMRU

| | 2017-2021 |
|---|---|
| Uwch-reolwyr, rheolwyr gweithredol a rheolwyr prosesau busnes | 70 |
| Rheolwyr prosiectau adeiladu | <50 |
| Rheolwyr prosiectau adeiladu eraill | – |
| Staff proffesiynol, technegol, TG a swyddfa eraill nad ydynt yn ymwneud ag adeiladu | 330 |
| Goruchwylwyr crefftau adeiladu | 120 |
| Crefftau pren a dodrefnu mewnol | 770 |
| Bricwyr | 390 |
| Arbenigwyr amlenni adeiladau | 70 |
| Peintwyr ac addurnwyr | 260 |
| Plastrwyr | 130 |
| Towyr | 60 |
| Llorwyr | – |
| Gwydrwyr | <50 |
| Gweithwyr adeiladu arbenigol nec* | – |
| Sgaffaldwyr | – |
| Gweithredwyr safle | <50 |
| Peirianwyr/ffitwyr safle | 70 |
| Codwyr dur/saernïo strwythurol | – |
| Llafurwyr nec* | 320 |
| Crefftau a gosod trydanol | 330 |
| Plymio a chrefftau gwresogi, awyru ac aerdymheru | 180 |
| Logisteg | <50 |
| Gweithwyr peirianneg sifil nec* | <50 |
| Peirianwyr sifil | 110 |
| Staff adeiladu proffesiynol a thechnegol eraill | 360 |
| Penseiri | 50 |
| Arolygwyr | 160 |
| **Cyfanswm (SIC 41-43)** | **3,210** |
| **Cyfanswm (SIC 41-43, 71.1, 74.9)** | **3,890** |

*Ffynhonnell: CSN, Experian.*
*Cyf: Esbonio CSN. *Heb eu dosbarthu mewn man arall.*

# CYMARIAETHAU LEDLED Y DU

Fel sy'n wir fel arfer, mae cyfradd twf allbwn cyfartalog blynyddol y DU gyfan o 1.7% yn cuddio cryn wahaniaeth yng nghyfraddau rhagamcanol rhanbarthau unigol Lloegr a'r gwledydd datganoledig, o dwf o fwy na 6% y flwyddyn ar gyfartaledd yng Nghymru i ostyngiad o 0.4% yn yr Alban o ran yr un mesur.

Mae Cymru a De-orllewin Lloegr yn parhau i fod yn y safleoedd uchaf o ran twf oherwydd y gwaith sydd ar ddod ar adeiladu gorsafoedd niwclear newydd yn Wylfa Newydd a Hinkley Point. Fodd bynnag, nid dim ond llwyddiannau byrhoedlog a geir yng Nghymru, gyda phrosiectau eraill sy'n weddol fawr megis y gwaith o uwchraddio'r M4 o amgylch Casnewydd yn dechrau yn ystod cyfnod y rhagolwg.

Mae marchnad adeiladu Llundain Fwyaf yn fwy agored i niwed yn sgil gostyngiad mewn buddsoddiad busnes na'r rhan fwyaf, a hynny oherwydd pa mor fawr yw ei sector masnachol. Fodd bynnag, disgwylir gwneud yn iawn am berfformiad gwan yn y fan hon drwy dwf cryf yn y sector seilwaith, wedi'i lywio i raddau gan y gwaith sydd wedi dechrau ar HS2 a thai preifat, ac wedi'i ysgogi gan gynnydd cryf ym mhoblogaeth y brifddinas.

Disgwylir i ddau ranbarth arall weld twf mewn allbwn cyfartalog blynyddol sy'n uwch na 2%, sef Gogledd-orllewin Lloegr (2.5%) a De-ddwyrain Lloegr (2.2%). Bydd twf yn y cyntaf yn cael ei ysgogi gan brosiectau ynni a thrafnidiaeth, a'r mwyaf ohonynt yw'r orsaf niwclear newydd arfaethedig yn Moorside. O ran yr olaf, dylai cyfleusterau ynni adnewyddadwy newydd ysgogi twf yn y sector seilwaith a bydd y sector adeiladu masnachol yn elwa ar y parc thema yng ngogledd Caint.

Ar gyfer gweddill rhanbarthau Lloegr, rhagwelir y bydd twf yn amrywio rhwng cyfradd gyfartalog flynyddol o 1.3% yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, a ddylai weld rhywfaint o waith sy'n gysylltiedig â HS2 erbyn diwedd cyfnod y rhagolwg, i ostyngiad ymylol o 0.1% yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr, a fydd yn dioddef o brinder prosiectau mawr a diffyg galw am dai.

Rhagamcenir mai'r Alban fydd yn perfformio waethaf o blith y rhanbarthau a'r gwledydd datganoledig, gyda gostyngiad cyfartalog blynyddol o 0.4%. Y prif reswm dros hyn yw gostyngiad sydyn mewn allbwn seilwaith o'i lefel uchel iawn ar hyn o bryd, wrth i nifer o brosiectau mawr megis Croesfaen Queensferry, uwchraddio traffyrdd yr M8/M73/M74, a Llwybr Cyrion Gorllewin Aberdeen, yn cwblhau dros y ddwy flynedd nesaf.


Mae twf cyflogaeth ledled y rhanbarthau a'r gwledydd datganoledig yn tueddu i adlewyrchu'r twf o ran allbwn, ond ar lefel is oherwydd yr enillion mewn cynhyrchiant a ddisgwylir a chyda rhai mân addasiadau, yn dibynnu ar p'un a yw'r twf mewn allbwn mewn sectorau â llafurddwysedd uchel neu isel. Rhagamcenir y bydd twf cyflogaeth cyfartalog blynyddol yn amrywio o gyfradd uchel o 2.7% yng Nghymru i gyfradd isel o -0.8% yn yr Alban, yn erbyn cyfradd y DU o 0.6%.

Mae effaith adeiladu gorsafoedd niwclear newydd ar gyflogaeth yn y rhanbarthau a'r gwledydd datganoledig a fydd yn cynnal prosiectau o'r fath yn llawer llai nag ar allbwn oherwydd ei natur gyfalaf yn hytrach na'i natur lafurddwys. Fodd bynnag, mae'n dal i roi hwb eithaf sylweddol i dwf cyflogaeth yng Nghymru gan ei fod yn brosiect mawr iawn mewn marchnad fach. Mae'r effaith yn llai yn Ne-orllewin Lloegr, lle ceir marchnad adeiladu fwy, ac felly mae'n cyfrannu llai at dwf cyflogaeth ar y cyfan, y mae disgwyl iddo fod tua 0.7% y flwyddyn ar gyfartaledd dros y pum mlynedd hyd at 2021.

Ni fydd twf mewn allbwn yn yr Alban, Gogledd-ddwyrain Lloegr, Dwyrain Canolbarth Lloegr, a Swydd Efrog a Humber yn ddigon cryf i ysgogi twf mewn cyflogaeth, felly mae disgwyl i'r rhain weld rhywfaint o ostyngiad mewn cyflogaeth adeiladu rhwng 2017 a 2021.


Gall patrwm ARR edrych yn wahanol iawn i'r proffil o allbwn a chyflogaeth, gan fod gan rai rhanbarthau a gwledydd datganoledig hanes o fewnlifau net cryf a bod rhai yn dioddef all-lifau net mawr. Felly, mae ARR Llundain Fwyaf yn cynrychioli dim ond 0.9% o gyflogaeth sylfaen 2017, sef y gymhareb isaf ar y cyd â Sir Efrog a Humber, er gwaethaf y ffaith ei bod mewn safle uchel o ran allbwn a thwf cyflogaeth. Mae hyn am fod y brifddinas yn naturiol yn denu gweithwyr adeiladu o rannau eraill o'r wlad ac o dramor, felly mae ei ARR yn gymharol isel. Ar ben arall y raddfa, mae Cymru'n tueddu i ddioddef all-lifau net cryf, yn enwedig i Ogledd-orllewin a De-orllewin Lloegr, ac mae ganddi'r gymhareb ARR uchaf yn aml o ganlyniad i hyn. Nid yw'r cyfnod rhwng 2017 a 2021 yn eithriad, gyda rhagolwg cadarnhaol o ran twf cyflogaeth ac allbwn a'r all-lifau net cryf yn arwain at gymhareb ARR o 3.4% o gyflogaeth sylfaen 2017. Mae gan y rhanbarthau a'r gwledydd datganoledig sy'n weddill gymhareb ARR rhwng 1% ac 1.9% o gyflogaeth sylfaen 2017.

## TWF CYFARTALOG BLYNYDDOL MEWN ALLBWN YN ÔL RHANBARTH 2017-2021




*Ffynhonnell: CSN, Experian.*
*Cyf: Esbonio CSN.*

## GOFYNIAD RECRIWTIO BLYNYDDOL (ARR) YN ÔL RHANBARTH 2017-2021




*Ffynhonnell: CSN, Experian.*

> Amcangyfrifir y bydd gofyniad recriwtio cyfartalog (ARR) blynyddol Cymru yn 3,890 dros y cyfnod rhwng 2017 a 2021, sy'n cynrychioli 3.4% o gyflogaeth sylfaen 2017, cymhareb sylweddol uwch nag un y DU, sef 1.4%.

# ESBONIO CSN

Mae'r atodiad hwn yn darparu manylion ac eglurhad pellach am rai o'r pwyntiau a wneir yn yr adroddiad.

**Mae METHODOLEG Y CSN** yn rhoi trosolwg o'r dulliau sylfaenol a ddefnyddir gan CSN, drwy weithio mewn partneriaeth ag Experian, i greu'r gyfres o adroddiadau ar lefel y DU, ar lefel genedlaethol ac ar lefel ranbarthol.

**Y GEIRFA yw** restr termau sy'n esbonio rhai o'r termau a ddefnyddir yn yr adroddiadau.

**Mae'r NODIADAU** yn cynnwys rhai nodiadau pellach yn ymwneud â'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd ar gyfer y siartiau a'r tablau amrywiol. Mae'r adran hon hefyd yn nodi ystyr y term 'ôl troed', pan drafodir y meysydd cyfrifoldeb.

**Mae'r DIFFINIADAU** yn esbonio'r diffiniadau o sectorau a ddefnyddir yn yr adroddiad ac yn nodi enghreifftiau o'r hyn sy'n cael ei gynnwys ym mhob un.

**Mae'r GRWPIAU GALWEDIGAETHOL** yn rhoi dadansoddiad manwl o'r 28 o grwpiau galwedigaethol yn ôl codau dosbarthiad galwedigaethol safonol (SOC) a gyfunir i ddarparu'r gofyniad cyflogaeth a recriwtio.

# METHODOLEG CSN

## CEFNDIR

Mae'r **Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu** wedi bod yn esblygu ers iddo gael ei sefydlu yn 2005, gan sicrhau bod gan CITB a CITB Gogledd Iwerddon ffordd o gasglu a chynhyrchu gwybodaeth am anghenion cyflogaeth a hyfforddiant y diwydiant ar gyfer y dyfodol.

Mae CSN yn gweithredu ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Mae'n cynnwys Grŵp Cenedlaethol, 12 grŵp Arsylwi, model rhagweld ar gyfer pob rhanbarth a gwlad, a Grŵp Cyfeirio Technegol. Ar hyn o bryd, mae grŵp Arsylwi yn gweithredu ym mhob un o'r naw rhanbarth yn Lloegr, yn ogystal ag yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'r grwpiau arsylwi yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn ar hyn o bryd ac yn cynnwys rhanddeiliaid rhanbarthol allweddol a wahoddwyd o blith y diwydiant, Llywodraeth, byd addysg a chyrff sector, y mae pob un ohonynt yn cyfrannu gwybodaeth am y diwydiant lleol a safbwyntiau ynghylch hyfforddiant, sgiliau, recriwtio, cymwysterau a pholisi. Mae'r Grŵp Cenedlaethol hefyd yn cynnwys yr un ystod o gynrychiolwyr ac yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, gan nodi'r sefyllfa genedlaethol sy'n sail i'r grwpiau Arsylwi i bob pwrpas.

Wrth wraidd CSN, ceir nifer o fodelau sy'n creu rhagolygon o ofynion cyflogaeth o fewn y diwydiant ar gyfer amrywiaeth o grwpiau galwedigaethol. Caiff y modelau eu cynllunio a'u rheoli gan Experian dan awdurdod ac arweiniad annibynnol y Grŵp Cyfeirio Technegol sy'n cynnwys ystadegwyr ac arbenigwyr ym maes modelu.

Mae'r modelau wedi esblygu dros amser a byddant yn parhau i wneud hynny er mwyn sicrhau eu bod yn ystyried ymchwil newydd fel y caiff ei chyhoeddi yn ogystal â thechnegau modelu newydd a gwell.

Dim ond ar ôl ymgynghori â'r Grŵp Cyfeirio Technegol y caiff newidiadau eu gwneud i'r model yn y dyfodol.

## Y MODELAU

Mae'r modelau yn dibynnu ar gyfuniad o waith ymchwil sylfaenol a safbwyntiau gan CSN er mwyn eu hwyluso. Defnyddir data cenedlaethol fel sail i'r tybiaethau sy'n ategu'r modelau, a gaiff eu haddasu wedyn gyda chymorth y grwpiau Arsylwi a'r Grŵp Cenedlaethol. Mae gan Gymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a phob rhanbarth yn Lloegr eu modelau eu hunain (er bod yr holl fodelau yn gydberthynol o ganlyniad i symudiadau llafur) ac, yn ogystal, ceir un model cenedlaethol sy'n gweithredu fel cyfyngiad ar y modelau unigol ac yn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o'r data mwyaf cadarn (sydd ar gael ar lefel genedlaethol).

Mae'r modelau yn rhagweld y galw am weithwyr medrus, a'u cyflenwad, ar wahân. Mae'r gwahaniaeth rhwng y galw a'r cyflenwad yn creu'r gofyniad cyflogaeth. Mae'r lefelau a ragwelir o ran cyfanswm cyflogaeth yn deillio o ddisgwyliadau ynghylch allbwn a chynhyrchiant adeiladu. Mae hyn, yn ei hanfod, yn seiliedig ar y cwestiwn 'Faint o bobl y bydd eu hangen er mwyn creu'r allbwn a ragwelir, o ystyried y tybiaethau a wnaethpwyd ynghylch cynhyrchiant?'

Gofyniad gros yw'r gofyniad recriwtio blynyddol (ARR) sy'n ystyried llifau'r gweithlu i mewn ac allan o'r diwydiant adeiladu o ganlyniad i ffactorau fel symudiadau rhwng diwydiannau, mudo, salwch ac ymddeoliad. Fodd bynnag, nid yw'r llifau hyn yn cynnwys symudiadau i'r

diwydiant o hyfforddiant, er bod data cadarn ynghylch y ddarpariaeth hyfforddiant yn cael ei ddatblygu gan CITB mewn partneriaeth ag asiantaethau ariannu cyhoeddus, addysg bellach, addysg uwch a chynrychiolwyr cyflogwyr. Felly, mae'r gofyniad recriwtio blynyddol yn rhoi syniad o nifer y cyflogeion newydd y byddai angen eu recriwtio i'r diwydiant adeiladu bob blwyddyn er mwyn gwireddu'r allbwn a ragwelir.

Caiff amcangyfrifon o'r galw eu seilio ar ganlyniadau grwpiau trafod sy'n cynnwys arbenigwyr o'r diwydiant, darlun o allbwn y diwydiant adeiladu a modelau integredig sy'n ymwneud â pherfformiad economaidd cenedlaethol a rhanbarthol ehangach. Mae'r modelau yn ddynamig ac yn adlewyrchu hinsawdd economaidd gyffredinol y DU ar unrhyw adeg benodol. Er mwyn creu'r galw am lafur, mae'r modelau yn defnyddio set o ystadegau penodol ar gyfer pob prif fath o waith er mwyn pennu'r gyflogaeth sydd ei hangen, yn ôl crefft, i greu'r lefelau a ragwelir o ran allbwn adeiladu. Mae'r cyflenwad llafur ar gyfer pob math o grefft neu broffesiwn yn seiliedig ar gyflenwad y flwyddyn flaenorol (cyfanswm y stoc cyflogaeth) wedi'i gyfuno â'r llifau i mewn ac allan o'r farchnad lafur.

Mae'r gollyngiadau (all-lifau) allweddol y bydd angen eu hystyried fel a ganlyn:


- Trosglwyddiadau i ddiwydiannau eraill
- Allfudo rhyngwladol/domestig
- Ymddeoliadau parhaol (gan gynnwys salwch parhaol)
- All-lif oherwydd salwch dros dro a dyletswyddau yn y cartref.

Mae'n debygol mai trosglwyddo i ddiwydiannau eraill fydd y prif reswm dros all-lif.

Mae llifau i mewn i'r farchnad lafur yn cynnwys y canlynol:

- Trosglwyddiadau o ddiwydiannau eraill
- Mewnfudo rhyngwladol/domestig
- Mewnlif oherwydd salwch dros dro a dyletswyddau yn y cartref.

Mae'n debygol mai trosglwyddo o ddiwydiannau eraill fydd y llif mwyaf sylweddol. Dangosir crynodeb o'r model yn y siart llif.



# GEIRFA

**Arbenigwyr amlen adeilad** – unrhyw grefft sy'n ymwneud â chladin allanol adeilad ac eithrio bricwaith, e.e. llenfuriau.

**Galw** – caiff y galw ei gyfrifo drwy ddefnyddio data ynghylch allbwn adeiladu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ac Adran Cyllid a Phersonél Gogledd Iwerddon (DFP), ynghyd â data ynghylch swyddi gwag o'r Arolwg Sgiliau Cyflogwyr Cenedlaethol, a gynhyrchir gan yr Adran Addysg a Sgiliau. Caiff y setiau data hyn eu trosi yn ofynion llafur yn ôl crefft drwy ddefnyddio set o gyfernodau er mwyn cynhyrchu'r ffigurau ar gyfer y galw am lafur sy'n ymwneud â lefelau allbwn a ragwelir.

**CMC (cynnyrch mewnwladol crynswth)** – cyfanswm gwerth yr holl nwyddau a gwasanaethau terfynol a gynhyrchir, ar y farchnad. Mesur o incwm cenedlaethol. CMC = GYC ynghyd â threthi ar gynhyrchion llai cymorthdaliadau ar gynhyrchion.

**GYC (gwerth ychwanegol crynswth)** – cyfanswm yr allbwn llai gwerth y mewnbynnau a ddefnyddir yn y broses gynhyrchu. Mae GYC yn mesur cyfraniad yr economi fel gwahaniaeth rhwng allbwn gros a mewnbynnau canolradd.

**Cyfernodau** – er mwyn creu'r galw am lafur, mae'r model yn defnyddio set o ystadegau penodol ar gyfer pob prif fath o waith er mwyn pennu cyflogaeth, yn ôl crefft neu broffesiwn, ar sail cyflenwad y flwyddyn flaenorol. Yn ei hanfod, dyma nifer y gweithwyr sydd eu hangen ym mhob galwedigaeth neu grefft er mwyn cynhyrchu allbwn o £1m ar draws pob is-sector.

**LFS (Arolwg o'r Llafurlu)** – arolwg a anfonir i sampl o gartrefi yn y DU, sy'n casglu gwybodaeth am gyflogaeth, diweithdra, llifau rhwng sectorau a hyfforddiant. Cesglir gwybodaeth o tua 53,000 o gartrefi bob chwarter (mae'r sampl yn cwmpasu dros 100,000 o bobl).

**LMI (gwybodaeth am y farchnad lafur)** – data meintiol (rhifiadol) neu ansoddol (dealltwriaeth a chanfyddiadau) ynghylch gweithwyr, cyflogwyr, cyflogau, amodau gwaith ac ati.

**Macroeconomeg** – astudio economi ar lefel genedlaethol, gan gynnwys cyfansymiau cyflogaeth, buddsoddiad, mewnforion, allforion, cynhyrchu a defnydd.

**Nec** – heb ei ddosbarthu mewn mannau eraill, fe'i defnyddir fel cyfeirnod mewn data LFS.

**SYG (Swyddfa Ystadegau Gwladol)** – sefydliad sy'n cynhyrchu ystadegau swyddogol am yr economi, poblogaeth a chymdeithas ar lefel genedlaethol a lleol.

**Allbwn** – cyfanswm gwerth yr holl nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir mewn economi.

**Cynhyrchiant** – allbwn fesul cyflogai. Codau SIC (codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol) – o Ddosbarthiad Diwydiannol Safonol y Deyrnas Unedig o Weithgareddau Economaidd, a gynhyrchir gan SYG.

**Codau SOC (codau Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol)** – o Ddosbarthiad Galwedigaethol Safonol y Deyrnas Unedig o Weithgareddau Economaidd, a gynhyrchir gan SYG.

**Cyflenwad** – cyfanswm y stoc cyflogaeth mewn cyfnod, ynghyd â'r llifau i mewn ac allan o'r farchnad lafur. Fel arfer, caiff data ei gyfrifo gan ddefnyddio data LFS.



# NODIADAU

## NODIADAU

1 Ac eithrio Gogledd Iwerddon, darperir data am allbwn y rhanbarthau yn Lloegr, Cymru a'r Alban gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar sail prisiau cyfredol. Felly, defnyddiwyd datchwyddiadau cenedlaethol a luniwyd gan SYG er mwyn datchwyddo prisiau i sail pris cyson 2005 er mwyn gwaredu effeithiau chwyddiant.

2 Mae cyfradd gyfartalog flynyddol y twf o ran allbwn yn gyfradd twf gyfartalog gyfansawdd, h.y. y gyfradd y byddai'r allbwn yn tyfu bob blwyddyn pe bai'n cynyddu'n raddol dros gyfnod y rhagolwg.

3 Dim ond cydrannau dethol o werth ychwanegol crynswth (GYC) a ddangosir yn y tabl hwn ac felly nid ydynt yn cyfateb i'r cyfanswm.

4 Ar gyfer archebion am waith adeiladu newydd, gwneir cymhariaeth â Phrydain Fawr yn hytrach na'r DU, gan nad oes unrhyw setiau data ynghylch archebion ar gyfer Gogledd Iwerddon.

5 Caiff niferoedd cyflogaeth eu talgrynnu i'r 10 agosaf.

6 Mae'r tablau yn cynnwys data sy'n ymwneud â phlymwyr a thrydanwyr. Fel rhan o SIC 43, mae plymwyr a thrydanwyr sy'n gweithio ym maes contractio yn rhan annatod o'r broses adeiladu.

7 Defnyddir lleiafswm adrodd o 50 ar gyfer y gofyniad recriwtio blynyddol (ARR). O ganlyniad, nid yw rhai rhagolygon ARR ar gyfer y rhanbarthau a gwledydd datganoledig yn cyfateb i gyfanswm gofyniad y DU.

8 Mae'r tablau Cyflogaeth ac ARR yn dangos cyfansymiau gwahanol ar gyfer SIC41-43 a SIC41-43, 71.1 a 74.9. Mae'r cyfanswm ar gyfer SIC41-43 yn cwmpasu'r 24 grŵp galwedigaethol cyntaf ar y tablau perthnasol ac nid yw'n cynnwys peirianwyr sifil, gweithwyr proffesiynol a staff technegol eraill yn y diwydiant adeiladu, penseiri a syrfewyr. Mae'r cyfanswm ar gyfer SIC41-43, 71.1 a 74.9 yn cynnwys pob galwedigaeth.



## OLION TRAED AR GYFER CYRFF SECTOR YR AMGYLCHEDD ADEILEDIG

Mae CITB a CITB Gogledd Iwerddon yn gyfrifol am SIC 41 Codi adeiladau, SIC 42 Peirianneg sifil, SIC 43 Gweithgareddau adeiladu arbenigol a SIC 71.1 Gweithgareddau pensaernïol a pheirianneg ac ymgynghori technegol cysylltiedig.

Mae'r tabl yn crynhoi'r codau SIC (2007) a gwmpesir gan CITB a CITB Gogledd Iwerddon:

| CITB a CITB Gogledd Iwerddon | |
|---|---|
| **Cod SIC** | **Disgrifiad** |
| 41.1 | Datblygu prosiectau adeiladu |
| 41.2 | Codi adeiladau preswyl ac amhreswyl |
| 42.1 | Adeiladu ffyrdd a rheilffyrdd |
| 42.2 | Adeiladu prosiectau cyfleustodau |
| 42.9 | Adeiladu prosiectau peirianneg sifil eraill |
| 43.1 | Dymchwel a pharatoi safleoedd |
| 43.3 | Cwblhau gwaith adeiladu a gorffeniadau |
| 43.9 | Gweithgareddau adeiladu arbenigol eraill nec |
| 71.1 | Gweithgareddau pensaernïol a pheirianneg ac ymgynghori technegol cysylltiedig |

Mae rhagolwg sylfaenol presennol Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu yn tybio y bydd bargen rhwng y DU a'r UE yn cael ei chytuno o fewn cyfnod o 4 mlynedd, gyda rhyw fath o fynediad i'r farchnad sengl ar gyfer masnachu. Gan nad yw'n debygol y bydd y telerau masnachu mor ffafriol â'r sefyllfa bresennol, mae amcanestyniadau allforio a buddsoddi'r DU dros y tymor hir wedi'u hisraddio ychydig yn y rhagolwg, o'u cymharu â'r rhagolwg sylfaenol a oedd yn cael ei weithredu cyn y bleidlais Brexit. Nid oes unrhyw addasiadau wedi'u gwneud i amcanestyniadau poblogaeth gwaelodol yn yr achos sylfaenol gan ei fod yn rhy gynnar asesu unrhyw arafu a fydd efallai'n digwydd yng nghyfraddau mudo'r UE.

# DIFFINIADAU: MATHAU AC ENGHREIFFTIAU O WAITH ADEILADU

## Tai sector cyhoeddus – awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, trefi newydd ac adrannau llywodraeth

Cynlluniau tai, cartrefi gofal i'r henoed a darparu ffyrdd a gwasanaethau nwy, dŵr, trydan, carthffosiaeth a draenio ar safleoedd tai.

## Tai sector preifat

Yr holl adeiladau preifat at ddefnydd preswyl, megis tai, fflatiau a fflatiau deulawr, byngalos, bythynnod a darparu gwasanaethau ar gyfer datblygiadau newydd.

## Seilwaith – cyhoeddus a phreifat

Cronfeydd Dŵr, gweithfeydd puro, argaeau, gweithfeydd dŵr, gorsafoedd pwmpio, gwaith hydrolig ac ati.

**Carthffosydd**
Gwaith gwaredu carthion, gosod carthffosydd a ffosydd agored.

**Trydan**
Gwaith peirianneg sifil ac adeiladu ar gyfer ymgymeriadau trydanol megis gorsafoedd ynni, argaeau a gwaith arall ar gynlluniau trydan dŵr, ffermydd gwynt ar y tir a datgomisiynu gorsafoedd ynni niwclear.

**Nwy, cyfathrebu, trafnidiaeth awyr**
Gweithfeydd nwy, prif gyflenwad nwy a storio nwy; swyddfeydd post, swyddfeydd didoli, cyfnewidfeydd ffôn, canolfannau dargyfeirio ac ati, terfynellau awyr, llwybrau glanio, siediau awyrennau, neuaddau derbyn, gosodiadau radar.

**Rheilffyrdd**
Ffordd barhaol, twnelau, pontydd, hafnau, gorsafoedd, cytiau locomotifau ac ati, signalau a systemau rheoli eraill a thrydaneiddio rheilffyrdd ar y tir a rheilffyrdd tanddaearol.

**Harborau**
Yr holl waith a'r adeiladau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â phorthladdoedd, glanfeydd, dociau, pierau, jetïau, camlesi a dyfrffyrdd, waliau môr, argloddiau ac amddiffynfeydd dŵr.

**Ffyrdd**
Ffyrdd, palmentydd, pontydd, llwybrau troed, goleuadau, twnelau, trosffyrdd, ffensys ac ati.

## Adeiladu cyhoeddus amhreswyl[1]

**Ffatrïoedd a warysau**
Ffatrïoedd, warysau, canolfannau sgiliau cyhoeddus.

**Olew, dur, glo**
Bellach wedi'i gyfyngu i waith adfer ar gyfer cyrff gweddilliol y sector cyhoeddus.

**Ysgolion, colegau, prifysgolion**
Ysgolion a cholegau gwladol (gan gynnwys colegau technegol ac athrofeydd amaethyddol); prifysgolion gan gynnwys neuaddau preswyl, sefydliadau ymchwil ac ati.

**Iechyd**
Ysbytai gan gynnwys ysgolion meddygol, clinigau, canolfannau lles, canolfannau hyfforddi oedolion.

**Swyddfeydd**
Swyddfeydd llywodraeth leol a chanolog, gan gynnwys neuaddau tref, swyddfeydd ar gyfer yr holl gyrff cyhoeddus ac eithrio'r lluoedd arfog, pencadlys yr heddlu.

**Adloniant**
Theatrau, bwytai, pyllau nofio cyhoeddus, safleoedd carafannau mewn canolfannau gwyliau, gwaith ac adeiladu ar feysydd chwaraeon, stadia, caeau rasio ac ati y mae awdurdodau lleol neu gyrff cyhoeddus eraill yn berchen arnynt.

**Garejys**
Adeiladau ar gyfer storio, atgyweirio a chynnal a chadw cerbydau ffordd, gweithdai trafnidiaeth, depos bysiau, depos cludo nwyddau ffyrdd a meysydd parcio.

**Siopau**
Datblygiadau siopa trefol y mae Awdurdod Lleol wedi rhoi'r contract ar eu cyfer.

**Amaethyddiaeth**
Adeiladau a gwaith ar sefydliadau garddwriaethol a ariennir yn gyhoeddus; draenio corstiroedd a draenio amaethyddol, clinigau milfeddygol.

**Amrywiol**
Yr holl waith nad oes modd ei gynnwys yn amlwg dan unrhyw bennawd arall, megis gorsafoedd tân, gorsafoedd heddlu, carchardai, penydfeydd, cartrefi remand, gwaith amddiffyn sifil, gwaith ar gyfer Awdurdod Ynni Atomig y DU, depos cynghorau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd.

## Gwaith diwydiannol preifat

Ffatrïoedd, warysau, depos cyfanwerthu, yr holl waith a'r adeiladau eraill at ddibenion cynhyrchu neu brosesu diwydiannol, purfeydd, pibellau a therfynellau olew; platfformau cynhyrchu olew â choesau concrid sefydlog (nid llwyfannau); gwaith dur preifat; yr holl waith sydd ei angen i adeiladu pyllau glo newydd megis agor siafftiau, twnelu ac ati.

## Gwaith masnachol preifat[1]

**Ysgolion a phrifysgolion**
Ysgolion a cholegau yn y sector preifat, sy'n cael eu hariannu'n gyfan gwbl gan gronfeydd preifat.

**Iechyd**
Ysbytai, cartrefi nyrsio a chlinigau preifat.

**Swyddfeydd**
Adeiladau swyddfa, banciau.

**Adloniant**

Theatrau, neuaddau cyngerdd, sinemâu, gwestai, tafarndai, bwytai, caffis, gwersylloedd gwyliau, pyllau nofio, gwaith ac adeiladau ar feysydd chwaraeon, stadia a safleoedd chwaraeon neu hamddena eraill, hostelau ieuenctid.

**Garejys**

Garejis atgyweirio, gorsafoedd petrol, depos bysiau, depos cludo nwyddau ac unrhyw waith neu adeiladau eraill ar gyfer storio, atgyweirio neu gynnal a chadw cerbydau ffordd, meysydd parcio.

**Siopau**

Yr holl adeiladau ar gyfer dosbarthu at ddibenion manwerthu megis siopau, siopau adrannol, marchnadoedd manwerthu, ystafelloedd arddangos ac ati.

**Amaethyddiaeth**

Yr holl adeiladau a gwaith ar ffermydd, sefydliadau garddwriaethol.

**Amrywiol**

Yr holl waith nad oes modd ei gynnwys yn amlwg dan unrhyw bennawd arall, e.e. arddangosfeydd, safleoedd carafannau, eglwysi, neuaddau eglwys.

## Gwaith newydd

**Tai newydd**

Adeiladu tai, fflatiau, byngalos newydd yn unig.

**Pob math arall o waith**

Yr holl waith adeiladu newydd a'r holl waith y mae modd cyfeirio ato fel gwaith gwella, adnewyddu neu ailwampio ac sy'n ychwanegu gwerth at yr eiddo.[2]

## Atgyweirio a chynnal a chadw

**Tai**

Unrhyw waith i drawsnewid neu ddarparu estyniad i unrhyw annedd sy'n bodoli eisoes, a'r holl waith arall megis gwaith gwella, adnewyddu, ailwampio, gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio ac unrhyw fath arall o wariant ar waith atgyweirio neu gynnal a chadw.

**Pob sector arall:**

Gwaith atgyweirio a chynnal a chadw o bob math, gan gynnwys gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio a gwaith cynnal a chadw cytundebol.[3]



[1] Pan ddyfarnir contractau er mwyn adeiladu neu wella adeiladau amhreswyl a ddefnyddir er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus, megis ysbytai, gan ddeiliaid contractau o'r sector preifat, a ddyfarnwyd dan Fenter Cyllid Preifat, caiff y gwaith ei ddosbarthu fel gwaith 'masnachol preifat'.

[2] Efallai na fydd contractwyr sy'n adrodd am waith bob amser yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng gwaith gwella neu adnewyddu a gwaith atgyweirio a chynnal a chadw yn y sectorau amhreswyl.

[3] Ac eithrio lle y nodir, caiff cynlluniau datblygu cymysg eu dosbarthu yn ôl y sector sy'n darparu'r mwyafrif o'r cyllid.

# GRWPIAU GALWEDIGAETHOL

### Grŵp galwedigaethol
Disgrifiad, cyfeirnod SOC (2010).

### Uwch reolwyr, rheolwyr gweithredol a rheolwyr prosesau busnes

| | |
|---|---|
| Prif weithredwyr ac uwch swyddogion | 1115 |
| Rheolwyr a chyfarwyddwyr ariannol | 1131 |
| Cyfarwyddwyr marchnata a gwerthu | 1132 |
| Rheolwyr a chyfarwyddwyr prynu | 1133 |
| Rheolwyr a chyfarwyddwyr adnoddau dynol | 1135 |
| Rheolwyr eiddo, tai ac ystadau | 1251 |
| Cyfarwyddwyr technoleg gwybodaeth a chyfathrebu | 1136 |
| Rheolwyr ymchwil a datblygu | 2150 |
| Rheolwyr a chyfarwyddwyr storio a storfeydd | 1162 |
| Rheolwyr a pherchnogion mewn gwasanaethau eraill nec* | 1259 |
| Rheolwyr a chyfarwyddwyr swyddogaethol nec* | 1139 |
| Rheolwyr TG arbenigol | 2133 |
| Rheolwyr prosiectau a rhaglenni TG | 2134 |
| Rheolwyr cyfrifon ariannol | 3538 |
| Rheolwyr cyfrifon gwerthu a datblygu busnes | 3545 |

### Rheolwyr prosiectau adeiladu

| | |
|---|---|
| Rheolwyr prosiectau adeiladu a gweithwyr proffesiynol cysylltiedig | 2436 |

### Rheolwyr prosesau adeiladu eraill

| | |
|---|---|
| Rheolwyr a chyfarwyddwyr cynhyrchu ym maes gweithgynhyrchu | 1121 |
| Rheolwyr a chyfarwyddwyr cynhyrchu ym maes adeiladu | 1122 |
| Rheolwyr a chyfarwyddwyr trafnidiaeth a dosbarthu | 1161 |
| Rheolwyr gwasanaethau gwaredu gwastraff ac amgylcheddol | 1255 |
| Swyddogion iechyd a diogelwch | 3567 |
| Gweithwyr proffesiynol cyswllt cadwraeth a diogelu'r amgylchedd | 3550 |

### Staff proffesiynol, technegol, TG a staff swyddfa eraill nad ydynt yn staff adeiladu (heb gynnwys rheolwyr)

| | |
|---|---|
| Technegwyr gweithrediadau TG | 3131 |
| Technegwyr cymorth defnyddwyr TG | 3132 |
| Dadansoddwyr a chynghorwyr cyllid a buddsoddi | 3534 |
| Arbenigwyr treth | 3535 |
| Technegwyr cyfrifyddu ac ariannol | 3537 |
| Hyfforddwyr diwydiannol a galwedigaethol | 3563 |
| Gweithwyr proffesiynol busnes a chyswllt cysylltiedig nec* | 3539 |
| Gweithwyr proffesiynol cyswllt cyfreithiol | 3520 |
| Archwilwyr safonau a rheoliadau | 3565 |
| Rhaglenwyr a gweithwyr datblygu meddalwedd proffesiynol | 2136 |
| Gweithwyr proffesiynol technoleg gwybodaeth a chyfathrebu nec* | 2139 |
| Asiantau tai ac arwerthwyr | 3544 |
| Cyfreithwyr | 2413 |
| Gweithwyr cyfreithiol proffesiynol nec* | 2419 |
| Cyfrifwyr siartredig ac ardystiedig | 2421 |
| Gweithwyr busnes a rheoli prosiectau ariannol proffesiynol | 2424 |
| Ymgynghorwyr rheoli a dadansoddwyr busnes | 2423 |
| Derbynyddion | 4216 |
| Teipyddion a galwedigaethau bysellfwrdd cysylltiedig | 4217 |
| Swyddogion gweithredol gwerthiannau busnes | 3542 |
| Clercod cyfrifon, rheolwyr y gyflogres a chlercod cyflogau | 4122 |
| Clercod a chynorthwywyr cofnodion | 4131 |
| Clercod a chynorthwywyr rheoli stoc | 4133 |
| Teleffonyddion | 7213 |
| Gweithredwyr cyfathrebu | 7214 |
| Cynorthwywyr personol ac ysgrifenyddion eraill | 4215 |
| Cynorthwywyr gwerthu a manwerthu | 7111 |
| Swyddogion gwerthu dros y ffôn | 7113 |
| Prynwyr a swyddogion caffael | 3541 |
| Swyddogion adnoddau dynol a chysylltiadau diwydiannol | 3562 |
| Rheolwyr credyd | 4121 |
| Ysgrifenyddion cwmni | 4214 |
| Galwedigaethau sy'n gysylltiedig â gwerthu nec* | 7129 |
| Galwedigaethau canolfannau galwadau a chanolfannau cyswllt | 7211 |
| Galwedigaethau gwasanaeth cwsmeriaid nec* | 7219 |
| Galwedigaethau gweinyddol elfennol nec* | 9219 |
| Gwyddonwyr cemegol | 2111 |
| Gwyddonwyr biolegol a biocemegwyr | 2112 |
| Gwyddonwyr ffisegol | 2113 |
| Technegwyr labordy | 3111 |
| Dylunwyr graffeg | 3421 |
| Gweithwyr iechyd yr amgylchedd proffesiynol | 2463 |
| Dadansoddwyr busnes TG, penseiri a dylunwyr systemau | 2135 |
| Gweithwyr cadwraeth proffesiynol | 2141 |
| Gweithwyr amgylcheddol proffesiynol | 2142 |
| Actiwarïaid, economegwyr ac ystadegwyr | 2425 |
| Gweithwyr busnes a gweithwyr ymchwil cysylltiedig proffesiynol | 2426 |
| Swyddogion cyllid | 4124 |
| Galwedigaethau gweinyddol ariannol nec* | 4129 |
| Galwedigaethau gweinyddol adnoddau dynol | 4138 |
| Gweinyddwyr gwerthu | 4151 |
| Galwedigaethau gweinyddol eraill nec* | 4159 |
| Goruchwylwyr swyddfa | 4162 |
| Goruchwylwyr gwerthu | 7130 |
| Rheolwyr a goruchwylwyr gwasanaeth cwsmeriaid | 7220 |
| Rheolwyr swyddfa | 4161 |

### Goruchwylwyr crefftau adeiladu

| | |
|---|---|
| Goruchwylwyr crefftau metel, trydanol ac electronig medrus | 5250 |
| Goruchwylwyr adeiladu a chrefftau adeiladu | 5330 |

### Crefftau pren a dodrefnwyr mewnol

| | |
|---|---|
| Seiri coed ac asiedyddion | 5315 |
| Gweithredwyr peiriannau papur a phren | 8121 |
| Gwneuthurwyr dodrefn a seiri coed crefft eraill | 5442 |
| Adeiladu a chrefftau adeiladu nec* (25%) | 5319 |

### Bricwyr

| | |
|---|---|
| Bricwyr a seiri maen | 5312 |

### Arbenigwyr amlen adeilad

| | |
|---|---|
| Adeiladu a chrefftau adeiladu nec* (50%) | 5319 |

### Peintwyr ac addurnwyr

| | |
|---|---|
| Peintwyr ac addurnwyr | 5323 |
| Adeiladu a chrefftau adeiladu nec* (5%) | 5319 |

### Plastrwyr

| | |
|---|---|
| Plastrwyr | 5321 |

### Towyr

| | |
|---|---|
| Towyr a theilswyr to | 5313 |

### Gosodwyr llawr

| | |
|---|---|
| Gosodwyr llawr a theilswyr waliau | 5322 |

### Gwydrwyr

| | |
|---|---|
| Gwydrwyr, gwneuthurwyr a gosodwyr ffenestri | 5316 |
| Adeiladu a chrefftau adeiladu nec* (5%) | 5319 |

### Gweithredwyr adeiladu arbenigol nad ydynt wedi'u dosbarthu mewn mannau eraill (nec*)

| | |
|---|---|
| Gweithredwyr adeiladu nec* (100%) | 8149 |
| Adeiladu a chrefftau adeiladu nec* (5%) | 5319 |
| Galwedigaethau prosesau glanhau diwydiannol | 9132 |
| Crefftau medrus eraill nec* | 5449 |

### Sgaffaldwyr

| | |
|---|---|
| Sgaffaldwyr, gosodwyr llwyfannau a rigwyr | 8141 |

### Gweithredwyr peiriannau

| | |
|---|---|
| Gyrwyr craeniau | 8221 |
| Gweithredwyr peiriannau nec* | 8129 |
| Gyrwyr wagenni fforch godi | 8222 |
| Gyrwyr a gweithredwyr peiriannau symudol nec* | 8229 |

### Mecanyddion/gosodwyr cyfarpar

| | |
|---|---|
| Gosodwyr cynnal a chadw a chynhyrchu gwaith metel | 5223 |
| Gwneuthurwyr ac atgyweirwyr offer manwl | 5224 |
| Technegwyr, mecanyddion a thrydanwyr cerbydau | 5231 |
| Galwedigaethau peiriannau prosesau elfennol nec* | 9139 |
| Gwneuthurwyr offer, gosodwyr offer a marcwyr | 5222 |
| Gweithwyr adeiladu ac atgyweirio corff cerbydau | 5232 |

### Gosodwyr dur/strwythurol

| | |
|---|---|
| Gosodwyr dur | 5311 |
| Crefftau weldio | 5215 |
| Gweithwyr platiau metel a rhybedwyr | 5214 |
| Adeiladu a chrefftau adeiladu nec* (5%) | 5319 |
| Gofaint a gweithwyr gefail | 5211 |
| Gosodwyr peiriannu metel a hogwyr | 5221 |

### Llafurwyr nec*

| | |
|---|---|
| Galwedigaethau adeiladu elfennol (100%) | 9120 |

### Crefftau trydanol a gwaith gosod

| | |
|---|---|
| Trydanwyr a gosodwyr trydanol | 5241 |
| Trydanol a chrefftau trydanol nec* | 5249 |
| Peirianwyr telathrebu | 5242 |

### Crefftau plymio a gwresogi, awyru ac aerdymheru

| | |
|---|---|
| Plymwyr a pheirianwyr gwresogi ac awyru | 5314 |
| Gosodwyr pibellau | 5216 |
| Adeiladu a chrefftau adeiladu nec* (5%) | 5319 |
| Peirianwyr aerdymheru a rheweiddio | 5225 |

### Logisteg

| | |
|---|---|
| Gyrwyr cerbydau nwyddau trwm | 8211 |
| Gyrwyr faniau | 8212 |
| Galwedigaethau storio elfennol | 9260 |
| Prynwyr a swyddogion prynu (50%) | 3541 |
| Clercod a chynorthwywyr trafnidiaeth a dosbarthu | 4134 |

### Gweithredwyr peirianneg sifil nad ydynt wedi'u dosbarthu mewn mannau eraill (nec*)

| | |
|---|---|
| Gweithredwyr adeiladu ffyrdd | 8142 |
| Gweithredwyr adeiladu a chynnal a chadw rheilffyrdd | 8143 |
| Gweithwyr chwarela a gweithredwyr cysylltiedig | 8123 |

### Gweithredwyr nad ydynt yn ymwneud ag adeiladu

| | |
|---|---|
| Gweithredwyr prosesau creu a thrin metel | 8117 |
| Gweithredwyr proses nec* | 8119 |
| Gweithredwyr peiriannau gwaith metel | 8125 |
| Gweithredwyr peiriannau dŵr a charthion | 8126 |
| Cyfosodwyr (cerbydau a nwyddau metel) | 8132 |
| Archwilwyr a swyddogion profi cyson | 8133 |
| Cyfosodwyr a gweithredwyr cyson nec* | 8139 |
| Galwedigaethau diogelwch elfennol nec* | 9249 |
| Glanhawyr a gweithwyr domestig* | 9233 |
| Glanhawyr stryd | 9232 |
| Garddwyr a thirlunwyr | 5113 |
| Gofalwyr | 6232 |
| Swyddogion diogelwch a galwedigaethau cysylltiedig | 9241 |
| Gweithwyr gwasanaethau diogelwch cyswllt proffesiynol nec* | 3319 |

### Peirianwyr sifil

| | |
|---|---|
| Peirianwyr sifil | 2121 |

### Gweithwyr adeiladu a staff technegol proffesiynol eraill

| | |
|---|---|
| Peirianwyr mecanyddol | 2122 |
| Peirianwyr trydanol | 2123 |
| Peirianwyr dylunio a datblygu | 2126 |
| Peirianwyr cynhyrchu a phroses | 2127 |
| Peirianwyr rheoli ansawdd a chynllunio | 2461 |
| Gweithwyr peirianneg proffesiynol nec* | 2129 |

| | |
|---|---|
| Technegwyr trydanol ac electroneg | 3112 |
| Technegwyr peirianneg | 3113 |
| Technegwyr adeiladu a pheirianneg sifil | 3114 |
| Technegwyr gwyddoniaeth, peirianneg a chynhyrchu nec* | 3119 |
| Technegwyr pensaernïol a thechnegwyr cynllunio tref* | 3121 |
| Drafftsmyn | 3122 |
| Technegwyr sicrhau ansawdd | 3115 |
| Swyddogion cynllunio tref | 2432 |
| Peirianwyr electroneg | 2124 |
| Technolegwyr pensaernïol siartredig | 2435 |
| Amcangyfrifwyr, priswyr ac aseswyr | 3531 |
| Technegwyr cynllunio, proses a chynhyrchu | 3116 |

### Penseiri

| | |
|---|---|
| Penseiri | 2431 |

### Syrfewyr

| | |
|---|---|
| Syrfewyr siartredig | 2433 |
| Syrfewyr meintiau | 2434 |

**Heb eu dosbarthu mewn man arall*

**I gael rhagor o wybodaeth am y Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu, cysylltwch â:**

Adam Evans
Dadansoddwr Ymchwil
0300 456 7226
Adam.evans@citb.co.uk

citb.co.uk/csn

Cymru Wales

Cofrestrir CITB yn elusen yng Nghymru a Lloegr (Rhif Cofrestredig 264289) ac yn yr Alban (Rhif Cofrestredig SC044875).
Mae CITB yn bartner o fewn SgiliauAdeiladu, sef y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer y diwydiant adeiladu.